Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Papur Gwyn

# Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad

Dyddiad cyhoeddi: **31 Ionawr 2017**

Ymatebion erbyn: **23:59 ar 11 Ebrill 2017**

## Trosolwg

Mae'r Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' yn ddatganiad o fwriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer gweithio rhanbarthol, yn disgrifio rôl gryfach i gynghorau a chynghorwyr, yn darparu fframwaith ar gyfer unrhyw uno gwirfoddol yn y dyfodol ac yn amlinellu rôl y cynghorau cymuned.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **11 Ebrill 2017**.

Gellir cyflwyno'r ymatebion drwy'r ddogfen ar-lein sy'n cynnwys y cwestiynau ymgynghori: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-llywodraeth-leol-cadernid-ac-adnewyddiad

I ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch y ffurflen ar-lein neu gofynnwch am yr holiadur cysylltiedig a'i ddychwelyd naill ai drwy e-bost i:
RLGProgramme@cymru.gsi.gov.uk

neu drwy'r post i
Diwygio Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-llywodraeth-leol-cadernid-ac-adnewyddiad

## Diogelu data

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG30737

## Tudalen Gynnwys

**RHAGAIR** .... 4
**1 CYFLWYNIAD** .... 5
**2 GWEITHIO’N RHANBARTHOL** .... 7
2.1 Sail Resymegol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol .... 7
2.2 Ystyried Gweithio'n Rhanbarthol .... 7
2.3 Swyddogaethau Arfaethedig ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol .... 9
Gofyniad i Weithio'n Rhanbarthol .... 9
Ystyried Gweithio'n Rhanbarthol .... 16
Hwyluso Rhagor o Gydweithio Rhanbarthol .... 17
2.4 Rhannu Gwasanaethau .... 18
2.5 Llywodraethu ac Atebolrwydd .... 22
2.6 Trefniadau Rhanbarthol .... 25
2.7 Dull gweithredu a ffefrir .... 27
2.8 Ariannu Trefniadau Rhanbarthol .... 30
2.9 Diwygiadau Ehangach i Gyllid .... 32
2.10 Materion y Gweithlu .... 32
2.11 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus .... 33
**3 UNO GWIRFODDOL** .... 35
**4 FFRAMWAITH AR GYFER ARWEINYDDIAETH LEOL** .... 37
4.1 Disgwyliadau Cyffredin .... 37
4.2 Arweinyddiaeth Ddosbarthedig .... 38
4.3 Perfformiad a Gwella .... 39
**5 ARWAIN ARDALOEDD LLEOL** .... 42
5.1 Gweithio mewn Partneriaeth â Phobl .... 42
5.2 Rôl Cynghorwyr .... 42
5.3 Gwrando ar Ardaloedd Lleol .... 43
5.4 Cydbwyso Arweinyddiaeth Leol a Rhanbarthol .... 44
5.5 Swyddogaethau Llywodraeth Leol .... 44
5.6 Arweinyddiaeth gan Swyddogion .... 45
**6 CYNGHORAU CYMUNED** .... 47
**7 ETHOLIADAU A PHLEIDLEISIO** .... 49
**8 ATODIAD UN: Statws Cynigion yr Ymgynghorwyd arnynt fel rhan o’r Ymgynghoriad ar y Bil Drafft Blaenorol** .... 53
**9 ATODIAD DAU: CWESTIYNAU YMGYNGHORI** .... 60

## RHAGAIR



Mae llywodraeth leol yn chwarae rhan hollbwysig ym mywydau pob dinesydd yng Nghymru. Mae cynghorau'n darparu'r gwasanaethau sy'n addysgu ein plant, yn gofalu am ein henoed, yn gwaredu ein gwastraff ac yn goleuo'n strydoedd. Mae'n wynebu heriau parhaus. Mae angen gwneud rhagor i sicrhau mwy o gysondeb a rhagoriaeth, a hynny ar adeg pan fydd llai o arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus o un flwyddyn i'r llall.

Mae diwygio yn hanfodol er mwyn i Awdurdodau Lleol fod yn gadarn yn ariannol a gallu cynnal a gwella safon gwasanaethau yn ystod y cyfnod rhyfeddol hwn o gyni. Dyna pam mae newid yn rheidrwydd, nid yn ddewis. Ond wrth amlinellu cynigion newydd ar gyfer diwygio, rydym wedi ymrwymo i adeiladu consensws ymhlith pawb ynghylch y ffordd ymlaen.

Ers cael fy mhenodi'n Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ym mis Mai 2016, rwyf wedi bod yn trafod yn barhaus ag Awdurdodau Lleol a'u partneriaid am y newid sydd ei angen i greu llywodraeth leol sy'n gadarn ac wedi'i hadnewyddu. Rydym ni i gyd yn cydnabod bod y dyfodol yn gofyn inni weithio'n wahanol ond yn bwysicach na hynny, mae'n gofyn inni weithio gyda'n gilydd, yn y sector a gyda'n partneriaid i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus ymatebol ac integredig o safon uchel ochr yn ochr â'r rheini sydd angen y gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar roi cymorth i bobl pan fydd arnynt ei angen fwyaf a sicrhau bod gan ein gwasanaethau cyhoeddus yr adnoddau i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n cael eu cyflwyno gan yr ansicrwydd gwleidyddol, ariannol ac amgylcheddol presennol. Ond mae angen inni edrych fwyfwy ar wasanaethau cyhoeddus y dyfodol, eu rôl, a rôl dinasyddion.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu perthynas newydd rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Perthynas lle mae'r naill yn deall y llall ac yn cydnabod rolau a buddiannau ei gilydd, a lle mae pob partner yn cael cyfle i sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf drwy weithio gyda dinasyddion ar agendâu y mae'r naill a'r llall wedi cytuno arnynt. Mae'n nodi dull newydd o ddiwygio sy'n canolbwyntio ar fwy o weithio'n rhanbarthol. Mae'n gosod fframwaith ar gyfer gwaith llywodraeth leol, gan gynnig dewislen o opsiynau y gall llywodraeth leol eu defnyddio, ar sail eu hamgylchiadau lleol a'u cryfderau. Mae hefyd yn tynnu sylw at y cynigion hynny sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad eisoes ac wedi cael cefnogaeth eang. Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion hyn yn y cynnig deddfwriaethol newydd hwn.

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'i dulliau o weithio a'i nodau llesiant yn helpu i ddod â ffocws cyffredin i'r gwaith hwn, un lle gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd i sicrhau manteision hirdymor i Gymru.



**Yr Athro Mark Drakeford**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**

# 1 CYFLWYNIAD

1.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r math o Gymru yr hoffem ei gweld. Mae'n nodi'n glir yr amcanion mwy hirdymor y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ceisio'u cyflawni, a'r ffyrdd o weithio y dylai gwasanaethau cyhoeddus eu mabwysiadu er mwyn eu cyflawni. O fewn y weledigaeth hirdymor hon o ddyfodol hirdymor Cymru, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag eraill i nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

1.1.2 Rydym yn pwysleisio'n glir nad ein lle ni yw rhagnodi'n fanwl sut y dylid cyflawni'r blaenoriaethau hynny; rôl y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau yw pennu hynny. Ni all ac ni ddylai cynigion ar gyfer diwygio gael eu datblygu a'u darparu gan Lywodraeth Cymru yn unig. Mae rhannu arweinyddiaeth, yn wleidyddol ac ar lefel swyddogion, yn hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol llwyddiannus i lywodraeth leol yng Nghymru.

1.1.3 Mae llywodraeth leol yn cyffwrdd â bywydau pawb yng Nghymru; ei thrigolion ac ymwelwyr. Rôl llywodraeth leol yw rhoi cymorth i unigolion, teuluoedd a chymunedau pan fydd arnynt ei angen fwyaf, gan eu grymuso i aros yn annibynnol neu adennill eu hannibyniaeth cyn gynted â phosibl. Ond mae hefyd yn darparu gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan bawb, er enghraifft, ysgolion i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, casglu a gwaredu gwastraff yn ddiogel, a'r ffyrdd a'r palmentydd rydym yn gyrru ac yn cerdded arnynt. Mae pob Awdurdod Lleol yn rhagori mewn rhyw faes, mae'r rhan fwyaf yn dda am wneud llawer o bethau, ond does dim un yn dda am wneud popeth. Mae'n hollbwysig ein bod ni, gyda'n gilydd, yn parhau i gryfhau ac adnewyddu llywodraeth leol fel bod pobl a chymunedau lleol yn cael cymorth i ffynnu.

1.1.4 Yn dilyn ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol'[1], nododd y Llywodraeth Cymru flaenorol gynigion i ddiwygio llywodraeth leol yn y 'Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft' ("y Bil Drafft"), ym mis Tachwedd 2015. Roedd mwyafrif y cynigion yn y Bil Drafft wedi cael cefnogaeth a chroeso da gan y gwasanaeth cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach fel cam cadarnhaol tuag at roi mwy o ryddid a hyblygrwydd wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg nad oedd cefnogaeth i'r cynigion i uno ar raddfa eang ac felly nid ydynt yn cael eu trafod ymhellach.

1.1.5 Mae'r ffactorau sy'n sbarduno newid yn glir o hyd, fodd bynnag. Mae angen inni helpu Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus a gwella cymunedau.

1.1.6 Ers etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda llywodraeth leol a phartneriaid ehangach am yr achos dros ddiwygio a dulliau posibl y gellid eu defnyddio i feithrin cadernid. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi cyfarfod ag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ar sawl achlysur, a hynny un i un, mewn grwpiau bach ac ym Myrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae swyddogion wedi trafod cynigion yn uniongyrchol gyda grwpiau sy'n cynrychioli meysydd gwasanaeth allweddol, er enghraifft, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr

[1] http://llyw.cymru/docs/dsjlg/consultation/150203-power-to-local-people-fullv2-cy.pdf

Addysg Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Trysoryddion Cymru, a Chyfreithwyr llywodraeth leol. Cynhaliwyd tri gweithdy er mwyn i swyddogion Awdurdodau Lleol drafod y cynigion, a daeth partneriaid gwasanaeth cyhoeddus ehangach i ymuno â ni i edrych ar y goblygiadau iddynt hwy. Drwy CLlLC, rydym wedi ceisio barn Aelodau Etholedig drwy gyfres o dri gweithdy dan ofal hwyluswyr annibynnol.

1.1.7 Rydym yn glir, yn unol â'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bod rhaid i'n dull o weithio barhau i gael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r rheini sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y ffordd hon o weithio, a'r angen i ddiwygio fod yn ateb ar y cyd i'r heriau a wynebwn fel gwasanaeth cyhoeddus, yn parhau i fod wrth wraidd ein dull gweithredu wrth inni ymgynghori ar y Papur Gwyn hwn a datblygu ein cynigion ymhellach yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad.

1.1.8 Roedd trafodaethau yn ystod haf 2016 yn pwysleisio bod angen ac awydd o hyd am ddiwygio, wedi'i ategu gan fwy o waith rhanbarthol, gan adeiladu ar fwyafrif y cynigion a fu'n destun ymgynghoriad cynt. Mae meithrin cadernid yn hanfodol er mwyn i Awdurdodau Lleol allu ymateb i'r heriau o'u blaenau. Clywsom y bydd mwy o weithio rhanbarthol yn caniatáu i Awdurdodau Lleol gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau ar raddfa briodol.

1.1.9 Rydym am ddatblygu perthynas fwy cyfartal gyda dinasyddion. Rôl gwasanaethau cyhoeddus ddylai fod i helpu pobl i fyw bywydau annibynnol a cheisio lleihau'r galw, gan ymyrryd dim ond lle mae hynny'n angenrheidiol a dim ond cyhyd ag sydd angen. O wneud hynny mae'r ffocws yn symud yn anorfod at atal, ac at wasanaeth cyhoeddus sy'n gallu gwneud mwy i helpu pobl i osgoi argyfwng, yn hytrach na chanolbwyntio ar helpu pobl mewn argyfwng. Creu gwasanaethau cyhoeddus darbodus i'r dyfodol yw'r nod.

1.1.10 Bydd gweithio fel hyn yn newid byd i wasanaethau cyhoeddus a dinasyddion fel ei gilydd. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Grŵp Gwasanaethau Effeithiol[2] adeiladu ar yr 'Egwyddorion Iechyd Darbodus'[3] a datblygu cyfres o 'Egwyddorion Gwasanaeth Cyhoeddus Darbodus' y gall sefydliadau ledled y gwasanaeth cyhoeddus eu defnyddio i helpu i ail-lunio'r rôl a'r berthynas rhwng gwasanaethau ac unigolion. Rydym eisoes yn cael effaith hynod gadarnhaol ar fywydau pob dydd pobl yng Nghymru. Mae angen inni barhau ar y daith hon i greu'r Gymru yr hoffem i gyd ei gweld yn y dyfodol.

1.1.11 Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi rhai o'r cynigion newydd sydd wedi dod i'r fei mewn trafodaethau gydag Aelodau Etholedig, swyddogion a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn nodi trefniadau ar gyfer gwaith rhanbarthol; yn disgrifio rôl gryfach ar gyfer cynghorau a chynghorwyr; yn darparu fframwaith ar gyfer unrhyw enghreifftiau o uno gwirfoddol yn y dyfodol; ac yn amlinellu rôl cynghorau cymuned.

1.1.12 Mae'r Papur Gwyn hwn hefyd yn amlinellu'r camau cychwynnol ar gyfer diwygio ariannol. Mae gwaith ar droed i ddatblygu cynigion cynhwysfawr ar gyfer diwygio system gyllid llywodraeth leol. Bydd hyn yn destun ymgynghoriad maes o law. Mae Atodiad Un yn rhoi crynodeb byr o'r cynigion hyn a'u statws ar hyn o bryd. Lle mae newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i gynnig blaenorol, cânt eu trafod yn y Papur Gwyn hwn.

[2] http://llyw.cymru/topics/improvingservices/public-services-leadership-panel/nwp/effectservices/?lang=cy
[3] http://llyw.cymru/topics/health/nhswales/prudent-healthcare/?lang=cy

# 2 GWEITHIO'N RHANBARTHOL

## 2.1 Sail Resymegol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

2.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod gofyniad arnom i weithio mewn ffordd wahanol. Mae'n gofyn i'r gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio dull cyfannol wrth wneud penderfyniadau, gan ystyried pethau o safbwynt llawer ehangach. Mae hefyd yn gofyn iddo gydnabod y cyd-ddibyniaeth sy'n bodoli, a phwysigrwydd cydweithio a gweithio gyda dinasyddion.

2.1.2 Mae sawl trefniant cydweithredu eisoes yn bodoli ac maent yn cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau ar hyd a lled Cymru. Rydym am adeiladu ar y llwyddiannau hyn, gan ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn sydd heb weithio, a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i sefydlu trefniadau gweithio rhanbarthol mwy uchelgeisiol. Rydym wedi clywed gan lywodraeth leol, a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach, y gellid ac y dylid gwneud mwy o gydweithio. Rydym eisiau adeiladu ar hyn.

2.1.3 Wrth drafod gydag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr llywodraeth leol, gwelir bod awydd am fwy o weithio rhanbarthol. Mae'n amlwg hefyd y ceir sawl maes lle byddai dull mwy systematig o weithio'n rhanbarthol o fudd i bobl leol a chymunedau. Nid yw gweithio'n rhanbarthol yn hawdd. Mae'n gofyn am ymrwymiad ac ymroddiad; mae'n rhaid iddo fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharodrwydd i gyfaddawdu er budd pawb. Mae'n rhaid bod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'r cydweithredu'n ceisio'i gyflawni ac ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau, llywodraethu, atebolrwydd a systemau cyllido; a hynny er budd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn ogystal â'r sefydliadau sy'n eu darparu.

2.1.4 Wrth ystyried trefniadau cydweithredu, dylem feddwl yn ofalus am fanteision, ac weithiau anfanteision, gweithio'n rhanbarthol. Dylai gweithio'n rhanbarthol sicrhau canlyniadau gwell i bobl a chymunedau yn y tymor byr; drwy ganolbwyntio ar atal problemau a thawelu sefyllfaoedd i sicrhau canlyniadau gwell dros dymor llawer hirach, drwy gyfleoedd i drawsnewid neu newid pwyslais gwasanaethau ar raddfa fawr, neu drwy ddyrannu adnoddau prin neu arbenigol yn fwy effeithiol. Dylai arwain at fanteision ymarferol hefyd: arbedion maint; cael gwared ar ddyblygu; lleihau cymhlethdod; symleiddio gweithgarwch a sicrhau cysondeb. Bydd hefyd yn dod â chryfder i'r gweithlu, yn enwedig mewn meysydd arbenigol iawn neu feysydd lle mae niferoedd staff yn isel iawn. Mae gan weithio rhanbarthol y potensial i gynnig mwy o amrywiaeth o ran profiadau a chyfleoedd gyrfa i staff.

2.1.5 Mae'n rhaid i weithio rhanbarthol arwain at ganlyniadau gwell, a/neu wneud gwasanaethau'n fwy cadarn. Gallai hynny olygu bod cost darparu'r gwasanaeth yr fath, ond bod y gwasanaeth yn fwy cadarn; neu fod y gost yn uwch, ond bod y canlyniad yn llawer gwell; neu fod cost darparu'r gwasanaeth yn llai a bod y canlyniadau'n parhau ar yr un lefel. Mae'n bosibl y gallai gweithio'n rhanbarthol arwain at drawsnewid gwasanaethau mewn modd na ellid bod wedi gwneud ar raddfa lai.

## 2.2 Ystyried Gweithio'n Rhanbarthol

2.2.1 Yn ystod y trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol, pwysleisiwyd na ddylid gweithio'n rhanbarthol os nad dyna fyddai'r ffordd orau o weithio. Mae'n rhaid ystyried a yw gweithio rhanbarthol yn addas. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o 'brofion' a allai helpu wrth ystyried

a yw'n addas. Mae'r 'profion' hyn yn cynnwys cyfres o gwestiynau am natur y gweithio rhanbarthol, a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig. Drwy ofyn y cwestiynau hyn, daw'n fwy eglur a yw gweithio rhanbarthol yn addas ar gyfer y swyddogaeth, maes gwasanaeth neu weithgarwch; neu ran o'r swyddogaeth, maes gwasanaeth neu weithgarwch. Efallai y bydd un neu ddau o'r profion yn awgrymu bod gweithio'n rhanbarthol yn ddewis da ar gyfer maes gwasanaeth penodol ond fod profion eraill yn awgrymu nad yw'n addas. Mae hyn yn anochel ac yn pwysleisio'r angen i benderfyniadau fod yn seiliedig ar drafodaethau gydag ymarferwyr, aelodau etholedig a swyddogion Llywodraeth Leol, y cyhoedd a phartneriaid ehangach.

**'PROFION'**

*Profion sylfaenol*

- A fydd gweithio'n rhanbarthol yn helpu i wella neu gynnal canlyniadau?
- A yw hwn yn faes lle dylid defnyddio dull lleol?
- A oes cysylltiadau â meysydd gwasanaeth eraill?
- A yw'n debygol y bydd manteision?

*Profion ar gyfer gweithio'n rhanbarthol*

- *A fydd yn gwneud y gwasanaeth yn fwy cadarn?*
  Er enghraifft, maes gwasanaeth sy'n wynebu heriau o ran cynaliadwyedd, megis gostyngiad sylweddol i'w gyllideb / lefelau staffio? Neu, efallai, faes lle ceir gweithgareddau ysbeidiol ond pwysig ac anochel.
- *A fydd yn gwella’r adnoddau a’r gallu yn y gwasanaeth, yn enwedig ar lefel uwch?*
  Er enghraifft, a fyddai gweithio'n rhanbarthol yn datrys problemau mewn maes y mae wedi bod yn anodd recriwtio iddo (ar lefel arbenigol neu uwch)?
  Neu, a fyddai'n bosibl defnyddio adnoddau mewn modd mwy strategol i gynllunio, comisiynu neu ddarparu’r gwasanaeth ar draws ardal fwy drwy weithio'n rhanbarthol?
- *A fydd yn gwneud gwasanaeth neu weithgarwch yn ddichonol?*
  Er enghraifft, a yw hwn yn faes nad yw'n ddichonol ar raddfa lai?
- *A fydd yn cynnig arbedion maint neu arbedion effeithlonrwydd mwy sylweddol?*
  Er enghraifft, a yw'n fwy effeithlon i'w ddarparu’n rhanbarthol ac a oes cyfleoedd i wneud arbedion?
- *A fydd hyn yn helpu i wella gwerth i'r cyhoedd?*
  Er enghraifft, a fyddai gweithio'n rhanbarthol yn cynnig y cyfle i'w gwneud yn haws i wneud y peth iawn neu i fod yn fwy uchelgeisiol o ran yr hyn y gellid ei gyflawni?
- *A yw hwn yn faes lle mae ffiniau Awdurdodau Lleol yn rhwystro’r dinesydd rhag cael y gwasanaeth y mae'n dymuno'i gael?*
- *A yw hwn yn wasanaeth newydd neu'n faes cyfrifoldeb sydd wedi'i ehangu?*
  Er enghraifft, lle nad oes trefniadau lleol wedi'u sefydlu hyd yma.
- *A oes arferion da y gellid adeiladu arnynt?*
  A oes trefniadau gweithio rhanbarthol eisoes ar waith mewn un maes (neu ragor) sy'n cefnogi achos dros ddarparu’r gwasanaeth ar sail ranbarthol ledled Cymru?
- *A yw hwn yn faes lle mae gweithio ar y cyd â phartneriaid yn bwysig a lle mae partneriaid yn gweithio ar sail patrwm rhanbarthol gwahanol (a mwy)?*

Er enghraifft, a yw hwn yn faes lle ceir rhyngweithio sylweddol gyda phartneriaid eraill a lle byddai trefniadau rhanbarthol yn gwneud cydweithio yn haws ac yn galluogi i wasanaethau gael eu hintegreiddio’n fwy effeithiol?

*Cwestiwn Ymgynghori 1:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ystyried 'profion' fel fframwaith wrth ystyried gweithio'n rhanbarthol. A ydych yn credu bod y 'profion' sydd wedi'u hamlinellu o gymorth i roi strwythur i syniadau? A oes profion neu ystyriaethau eraill y gellid eu defnyddio hefyd?*

## *2.3 Swyddogaethau Arfaethedig ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol*

2.3.1 Mae'r cynigion ar gyfer dulliau gweithio gorfodol a systematig yn y Papur Gwyn hwn yn cynnig cyfle i gryfhau, cysoni a symleiddio'r trefniadau presennol rhwng Awdurdodau Lleol. Os bydd Awdurdodau Lleol yn gallu dirprwyo penderfyniadau fel eu bod yn cael eu gwneud ar lefel ranbarthol gyda lefel uchel o lywodraethiant democrataidd a goruchwyliaeth, gan gynnwys craffu, byddant yn gallu gweithredu'n fwy cyson â phartneriaid eraill. Drwy wneud penderfyniadau ar lefel ranbarthol, dylid gallu defnyddio adnoddau arbenigol ac adnoddau eraill yn fwy effeithiol i adnabod a diwallu anghenion pobl ym mhob rhanbarth, gan gynnwys drwy gynyddu'r ffocws ar atal. Bydd yn golygu bod gweithio integredig yn fwy syml ac effeithiol i bartneriaid eraill, a bydd yn gwella canlyniadau i bobl. Dylai hefyd arwain at fwy o gysondeb gyda'r dull o ddarparu gwasanaethau eraill yn rhanbarthol.

2.3.2 Rydym wedi nodi nifer o feysydd lle'r ydym yn cynnig y dylai gweithio rhanbarthol fod yn ofynnol. Ceir nifer o feysydd eraill lle dywedwyd wrthym ei bod yn debygol y bydd cyfleoedd i weithio'n rhanbarthol, ond bod angen trafod hyn ymhellach gydag ymarferwyr. Felly, rydym wedi nodi nifer o feysydd lle byddai'n ddefnyddiol rhoi mwy o ystyriaeth i weithio rhanbarthol.

### *Gofyniad i Weithio'n Rhanbarthol*

### Datblygu Economaidd

2.3.3 Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ystod o bwerau a swyddogaethau sy'n ymwneud â datblygu economaidd a llesiant economaidd eu hardaloedd. Mae ganddynt gryn ryddid o ran y ffordd y maent yn arfer y swyddogaethau hyn, ac mae'r graddau y mae Awdurdodau'n ymwneud â datblygu economaidd a'r modd y maent yn gwneud hynny yn amrywio'n sylweddol. Mae sawl Awdurdod, a rhanddeiliaid eraill, wedi gwneud y sylw nad yw'r patrwm daearyddol presennol ar gyfer gweinyddiaeth Awdurdodau Lleol yn cynnig graddfa naturiol nac effeithiol i allu ymdrin â datblygu economaidd mewn ffordd gydlynol. Mae hyn o ran maint yr ardal lle caiff y swyddogaethau eu cyflawni ac o ran yr adnoddau a'r gallu sydd gan Awdurdodau unigol i gynllunio a gweithredu datblygiadau economaidd mewn ffordd strategol. Mae'r diffyg graddfa ac adnoddau a welir yn y trefniadau presennol yn llesteirio gallu i ddatblygu amodau sy'n denu buddsoddiadau mewn busnes, i feithrin sgiliau'r gweithlu a darparu lle i'r gweithlu, ac i ddarparu trafnidiaeth a seilwaith integredig sy'n cefnogi twf.

2.3.4 Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol eisoes yn ymateb i annigonoldeb strwythur presennol Awdurdodau Lleol drwy greu'r partneriaethau rhanbarthol ehangach sy'n deillio o ddulliau gweithredu'r fargen ddinesig a'r ddinas-ranbarth, er mwyn meithrin datblygiadau economaidd. Mae trefniadau rhanbarthol, pwrpasol, yn datblygu mewn cysylltiad â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Nid yw Ceredigion a Phowys wedi'u cynnwys yn y cynigion ar gyfer y bargeinion dinesig, ond maent yn arwain

partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadau'r trefniadau hyn fel sylfaen ar gyfer cyflawni swyddogaethau datblygu economaidd (gan gynnwys datblygu sgiliau a chyflogaeth) ar sail ranbarthol a chynnwys datblygu economaidd yn y rhestr o swyddogaethau sydd i'w cyflawni ar sail orfodol a systematig.

2.3.5 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i wybod beth yw barn pobl ynglŷn â'r swyddogaethau y gellid eu cyflawni ar sail ranbarthol er mwyn cyfrannu at ddatblygiad economaidd y rhanbarth. Byddem yn croesawu sylwadau ynghylch y swyddogaethau'n gyffredinol neu ynghylch swyddogaethau statudol unigol. Byddem hefyd yn croesawu barn ar ba un a yw ardaloedd daearyddol y trefniadau arfaethedig ar gyfer y swyddogaethau hyn yn cynnig y strwythur mwyaf effeithiol i sicrhau ffyniant economaidd ai peidio.

### Trafnidiaeth

2.3.6 Mae gan Awdurdodau Lleol nifer o bwerau a dyletswyddau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ac mae llawer yn cydnabod bod manteision i baratoi cynlluniau strategol ar gyfer darparu trafnidiaeth ar sail ranbarthol. Dyna sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain, gan roi ystyriaeth i'r patrwm o ran galw a chynnig cyfleoedd i integreiddio'r seilwaith trafnidiaeth a'r gwasanaethau a ddarperir. Mae cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol eisoes yn cael eu paratoi ar gyfer y rhan fwyaf o Gymru. Rydym hefyd yn awyddus i wybod a oes swyddogaethau trafnidiaeth eraill a fyddai'n addas i'w darparu ar sail ranbarthol yn eich barn chi.

2.3.7 Mae cryn gysondeb eisoes rhwng swyddogaethau datblygu economaidd, trafnidiaeth a chynllunio strategol awdurdodau lleol, ac mae'r patrymau daearyddol ar gyfer y bargeinion dinesig a thwf economaidd y cyfeirir atynt yn yr adran ar ddatblygu economaidd yn darparu'r sail mwyaf amlwg ar gyfer eu darparu yn y dyfodol. Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu'r rhanbarthau hyn fel patrwm ar gyfer cynllunio trafnidiaeth yn y dyfodol, gan gydnabod bod cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol yn cael eu paratoi ar hyn o bryd ar sail ddaearyddol wahanol. Rydym yn ceisio barn ar y patrwm arfaethedig ac yn awyddus i wybod a fyddai model gwahanol yn fwy priodol ar gyfer swyddogaethau trafnidiaeth, yn enwedig yn y Canolbarth (Ceredigion a Phowys).

### Cynllunio Defnydd Tir a Rheoli Adeiladu

#### Cynllunio Defnydd Tir

2.3.8 Rydym yn cynnig y dylid ymdrin â chynllunio defnydd tir yn y dyfodol ar sail ranbarthol. Rhwng 2009/10 a 2016/17, bu lleihad o 53%[4] yn yr adnoddau sydd wedi eu neilltuo ar gyfer y swyddogaeth gynllunio. Dyma'r lleihad mwyaf o blith holl feysydd gwasanaeth yr Awdurdodau Lleol. Ar yr un pryd, mae ein disgwyliadau gan y system gynllunio wedi cynyddu. Mae'r system gynllunio'n cynnig cyfleoedd pwysig i gyflawni amrywiaeth o flaenoriaethau, gan gynnwys ffyniant economaidd, tai fforddiadwy a seilwaith gwyrdd. Mae hefyd yn chware rhan bwysig o ran hwyluso llesiant. Er mwyn gallu gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf yr Amgylchedd (Cymru), Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a Deddf Cynllunio (Cymru) yn effeithiol,

[4] http://www.senedd.assembly.wales/documents/s500002771/FIN4-01-16%20P1%20WLGA%20consultation%20response.pdf

mae'n rhaid cael awdurdodau cynllunio cadarn sydd â mynediad at sgiliau arbenigol

2.3.9 Cyfyngedig yw'r trefniadau gweithio rhanbarthol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y maes gwasanaeth hwn, ac eithio'r cydweithredu ym maes mwynau a chynllunio gwastraff. Rydym o'r farn y bydd cyflwyno dull systematig o ddarparu gwasanaethau cynllunio yn arwain at welliant sylweddol yn safon y gwasanaethau, yn gwneud y gwasanaethau'n fwy cadarn ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu.

2.3.10 Mae'n bosibl y bydd darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) yn sail ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio ar lefel ranbarthol. Rydym wedi moderneiddio'r trefniadau ar gyfer Byrddau Cydgynllunio fel y gallant baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (ac eithrio Parciau Cenedlaethol) a gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio. Rydym hefyd wedi cyflwyno'r gallu i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

2.3.11 Nid ydym yn credu bod Cynlluniau Datblygu Strategol yn angenrheidiol ym mhobman yng Nghymru. Lle bernir bod angen Cynllun Datblygu Strategol, dylid ei baratoi ar sail patrwm datblygu economaidd ehangach. Drwy wneud hynny, byddai modd rhoi sylw i faterion strategol ar ar draws ardal ehangach. Byddai hynny'n sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud â chyfleoedd ym meysydd adfywio economaidd, trafnidiaeth ac adnoddau naturiol i reoli ar lefel ranbarthol. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn gwneud darpariaeth i Gynlluniau Datblygu Strategol gael eu paratoi gan gorff un diben, sef Panel Cynllunio Strategol. Wrth i drefniadau llywodraethu rhanbarthol ddatblygu, megis y rhai sy'n gysylltiedig â'r Bargeinion Dinesig, efallai y bydd yn bosibl defnyddio'r trefniadau llywodraethu hyn yn eu lle. Yn fwy cyffredinol, mae'r Papur Gwyn hwn yn cynnig trefniadau statudol newydd ar gyfer llywodraethu trefniadau gweithio rhanbarthol yn gyson. Gellid cymhwyso'r trefniadau arfaethedig newydd hyn i faes cynllunio. Byddem yn croesawu barn pobl ynglŷn â hyn.

2.3.12 Yn ogystal â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol lle bo angen un, rydym yn credu y byddai manteision i ddarparu gwasanaethau cynllunio eraill ar sail ranbarthol. Rydym yn ceisio barn ar y dull gorau o sefydlu patrwm daearyddol priodol ar gyfer darparu gwasanaethau ar sail ranbarthol. Yn benodol, rydym yn ceisio barn ar y swyddogaethau y mae angen eu cyflawni ar lefel is-ranbarthol, ond ar raddfa fwy nag Awdurdodau unigol. Rydym o'r farn fod swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio (heblaw'r swyddogaethau strategol a nodir uchod) yn perthyn i'r categori hwn. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau nad yw gwasanaethau cynllunio wedi'u lleoli'n rhy bell oddi wrth ddinasyddion a chymunedau.

2.3.13 Mae rhestr gychwynnol o'r swyddogaethau cynllunio y dylid eu darparu ar lefel is-ranbarthol i'w gweld isod. Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u cynnwys er mwyn cadw'r cysylltiad rhwng paratoi Cynllun Datblygu Lleol a phenderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio. Rydym hefyd wedi ceisio sefydlu pa gyngor arbenigol sy'n hanfodol er mwyn i weithdrefnau penderfynu fod yn effeithlon ac o safon uchel.

- Paratoi Cynllun Datblygu Lleol
- Gosod a chasglu Ardoll Seilwaith Cymunedol
- Rheoli Datblygu (prosesu ceisiadau cynllunio a swyddogaethau gorfodi)
- Cyngor arbenigol ar y gwasanaethau canlynol:

- Mwynau a gwastraff
- Gwasanaethau cadwraeth yr amgylchedd adeiledig
- Seilwaith Gwyrdd, tirwedd ac ecoleg
- Dichonoldeb a chytundebau adran 106 (rhwymedigaethau cynllunio)
- Dylunio Trefol
- Rheoli'r gwaith o ddatblygu priffyrdd

2.3.14 Mae atebolrwydd democrataidd yn un o egwyddorion sylfaenol y system gynllunio. Nid ydym yn dymuno tanseilio hyn. Credwn fod dwy opsiwn ar gyfer cynnal atebolrwydd wrth ddefnyddio dull darparu rhanbarthol. Gellid defnyddio pwerau deddfwriaethol presennol i greu Byrddau Cydgynllunio (Model Byrddau Cydgynllunio), a fyddai'n cynnwys cynghorwyr o bob un o'r Awdurdodau sydd yn ardal y Bwrdd. Byddai penderfyniadau ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol a cheisiadau cynllunio yn cael eu gwneud gan y Bwrdd. Mewn modd tebyg, gallai aelodau etholedig hefyd wneud penderfyniadau ar lefel ranbarthol drwy'r 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' newydd a gynigir yn y Papur Gwyn hwn. Byddai hyn yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cynllunio yn gyson â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau eraill. Dewis arall posibl fyddai i'r cyfrifoldeb dros benderfyniadau cynllunio aros gyda'r prif Awdurdod presennol neu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a bod swyddogion ar lefel ranbarthol yn paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn prosesu ceisiadau. Yn y modd hwn, byddai'r uned darparu gwasanaethau rhanbarthol yn gwasanaethu nifer o bwyllgorau cynllunio (model rhannu gwasanaethau).

2.3.15 Byddem yn croesawu barn pobl ynglŷn â'r gweithgareddau cynllunio a nodwyd fel rhai y dylid eu darparu ar lefel ranbarthol. Hoffem wybod hefyd a oes swyddogaethau eraill sy'n ymwneud â chynllunio y byddai dull rhanbarthol yn cynnig y ffordd orau o'u harfer yn eich barn chi, yn ogystal ag unrhyw awgrymiadau eraill sydd gennych.

### Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol

2.3.16 Mae'r problemau y mae adrannau rheoli adeiladu llywodraeth leol yn eu hwynebu yn debyg i'r rhai y mae'r adrannau cynllunio'n eu hwynebu. Maent yn cynnwys prinder adnoddau, anhawster i recriwtio staff newydd a diffyg sgiliau arbenigol, yn enwedig mewn awdurdodau llai. Cyfyngedig yw'r trefniadau cydweithio sydd eisoes wedi'u sefydlu.

2.3.17 Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau Rheoli Adeiladu yn rhan o'r adrannau cynllunio neu amddiffyn y cyhoedd. Ymddengys mai'r duedd gyffredinol yw lleoli yn yr un man â'r swyddogaeth gynllunio gan mai cynllunio a rheoli adeiladu yw'r prif fecanweithiau ar gyfer rheoli datblygu. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig y dylid darparu gwasanaethau rheoli adeiladu Awdurdodau Lleol yn rhanbarthol ar sail yr un patrwm daearyddol.

## Gwasanaethau Cymdeithasol

2.3.18 Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ymdrin ag amrywiaeth o swyddogaethau. Mae cysylltiad cryfach rhwng rhai o'r swyddogaethau hyn nag eraill, ac mae Awdurdodau Lleol yn cynnwys gwahanol swyddogaethau o dan y term gwasanaethau cymdeithasol. Mae cysylltiadau hanfodol rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, yn ogystal â thai, addysg a'r heddlu. Mae'r swyddogaethau hyn yn effeithio ar rai o'r bobl mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, a byddant yn bwysig i bob un ohonom ar ryw bwynt yn ein

bywydau. Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n wynebu heriau, ac mae awydd yn y gwasanaethau hyn i newid y ffordd maent yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn. Byddai hynny'n cynnwys cynllunio a gweithredu ar raddfa fwy. Mae cysondeb o ran gweithdrefnau penderfynu a darparu yn dod yn gynyddol bwysig.

2.3.19 Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gosod gofyniad i sefydlu trefniadau partneriaeth ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol, dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Byrddau Partneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol (aelodau etholedig a swyddogion) a defnyddwyr gwasanaethau. Sefydlwyd y partneriaethau hyn ar gyfer swyddogaethau diffinedig, sy'n canolbwyntio'n benodol ar feysydd lle mae integreiddio llwyddiannus rhwng llywodraeth leol a'r sector iechyd yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol i ddinasyddion. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r canllawiau statudol ategol yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector iechyd a llywodraeth leol gynllunio a chomisiynu ar y cyd, a defnyddio cyllidebau cyfun. Mae'r canllawiau cyfredol yn cydnabod bod mwy nag un ymyriad yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, neu bod angen mwy nag un ymyriad arnynt, yn aml. Felly, mae disgwyl i bartneriaid ymestyn eu trefniadau partneriaeth y tu hwnt i'r meysydd blaenoriaeth er mwyn gwella canlyniadau i'r boblogaeth yn gyffredinol.

2.3.20 Bydd angen i'r trefniadau llywodraethu a ddisgrifir yn y Papur Gwyn hwn gefnogi integreiddio â'r Bwrdd Iechyd Lleol a threfniadau eraill ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

## Gwella Addysg

2.3.21 Mae gwella addysg yn cynnwys amrywiaeth o swyddogaethau a gyflawnir gan ysgolion, Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol yng Nghymru. Caiff rolau a swyddogaethau pob haen eu pennu gan y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol a gytunwyd yn ystod hydref 2013 er mwyn gallu gwella canlyniadau addysgol mewn ysgolion yn gyflymach.

2.3.22 Ar hyn o bryd, mae pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yn gweithredu yng Nghymru. Mae tri ohonynt yn gweithredu fel cyd-bwyllgorau i'r awdurdodau yn eu hardal ac mae un (yn y De-ddwyrain) yn gweithredu fel cwmni rheoli ar y cyd sy'n gwasanaethu Awdurdodau'r ardal.

2.3.23 Rydym yn cydnabod bod y sefyllfa o ran gwella addysg yn gymhleth, yn nhermau'r gwahaniaeth yn yr ystod o wasanaethau gwella a ddarperir gan y consortia presennol ac yn nhermau'r strwythurau rhanbarthol presennol. Ceir amrywiadau sylweddol o ran yr ystod o wasanaethau gwella a ddarperir gan y consortia presennol ac nid yw eu hardaloedd daearyddol yn cydweddu â'r patrymau daearyddol ar gyfer darparu gwasanaethau eraill.

2.3.24 Lle bo trefniadau rhanbarthol ar waith eisoes, bwriad y cynigion yn y Papur Gwyn hwn yw adeiladu arnynt a gweithredu fel hwb i ailedrych arnynt. Mae'r hyblygrwydd yno i gynyddu graddfa'r gweithgarwch, i ymestyn dros ardal ddaearyddol fwy, drwy weithio ar draws dau ranbarth neu fwy lle bo hynny'n briodol. Yn achos gwella addysg, efallai y byddai ardaloedd Byrddau Iechyd yn fan cychwyn ar gyfer hyn, ond rydym yn cydnabod hefyd fod rhai awdurdodau'n perthyn i ardaloedd Bwrdd Iechyd ac ardaloedd consortia gwahanol.

2.3.25 Mae'n hanfodol fod y sector addysg, yn enwedig addysg ôl-16, yn ymateb i anghenion gweithlu'r sector cyhoeddus os yw llywodraeth leol am allu recriwtio staff sydd â sgiliau priodol yn y Gymraeg yn y dyfodol. Bydd angen i'r sector addysg gael gwybodaeth am y gofynion ar y pryd ac yn y dyfodol o ran sgiliau Cymraeg yn fwy cyffredinol, fel y gall i'r galw. Gellid casglu ac ystyried yr wybodaeth hon ar lefel ranbarthol, a datblygu cynlluniau ar draws y rhanbarth i sicrhau bod hyfforddiant digonol ar gael ar gyfer sgiliau Cymraeg. Ceir cysylltiad rhwng hyn a swyddogaeth llywodraeth leol fel cyflogwr pwysig, yn uniongyrchol ac hefyd trwy eu contractau a'u cytundebau partneriaeth. Gallai'r dull hwn o gynllunio chwarae rhan hanfodol wrth annog pobl ifanc i gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg er mwyn eu defnyddio yn y gweithle wedi iddynt adael addysg statudol.

2.3.26 Rydym yn ceisio barn ar ba ddull allai fod yr un mwyaf addas ar gyfer darparu gwasanaethau gwella addysg ar sail ranbarthol, a'r ystod a'r math o wasanaethau y gellid eu darparu’n fwyaf effeithiol ar lefel ranbarthol.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

2.3.27 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar 12 Rhagfyr 2016. Bydd y bil hwn yn sefydlu:

- Fframwaith statudol sengl i gefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion ac addysg bellach, gan ei gwneud yn haws iddynt wrth iddynt symud drwy'r system. Bydd yn disodli'r gwahanol ddulliau gweithredu a deddfwriaeth sydd ar waith ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig hyd at 16 oed, a dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu ac/neu anawsterau mewn addysg ôl-16. Bydd yn creu cynllun sengl (y cynllun datblygu unigol) i ddisodli'r ystod o gynlluniau statudol ac anstatudol ar gyfer dysgwyr, gan sicrhau tegwch o ran hawliau beth bynnag fo lefel anghenion y dysgwr neu'r lleoliad addysg y mae'n ei fynychu.
- Proses asesu, cynllunio a monitro integredig a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar, gan gynnwys dyletswydd ar Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i gydweithredu i ddiwallu angen dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc fel ei fod yn gallu cyflawni'i botensial llawn; a
- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apelau, lle mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundeb.

2.3.28 Ymhlith swyddogaethau eraill, bydd y bil hwn yn trosglwyddo cyfrifoldeb i'r Awdurdodau Lleol am gadw cynlluniau datblygu unigol ar gyfer dysgwyr sydd angen lleoliadau arbenigol ôl-16. Ran amlaf o lawer, bydd y rhain yn ddysgwyr y mae'r Awdurdod Lleol wedi bod yn ymwneud â hwy drwy gydol eu haddysg yn yr ysgol (a dysgwyr y byddant wedi cadw Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig ar eu cyfer o dan y system bresennol a chynllun datblygu unigol ar eu cyfer o dan y system newydd). Mewn sawl achos, bydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol wedi bod mewn cysylltiad parhaus â'r bobl ifanc hyn. Bydd trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn oddi wrth Lywodraeth Cymru i'r Awdurdodau Lleol yn gwella'r broses drosglwyddo drwy annog Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a darparwyr addysg ôl-16 i gydweithio i gynllunio a sicrhau cymorth, ac i wella’r ddarpariaeth leol sy'n berthnasol i

anghenion unigol plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y cyllid ar gyfer y lleoliadau hyn yn cael ei drosglwyddo oddi wrth Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol.

2.3.29 Bydd mwy o gydweithredu ar sail ranbarthol ac amlasiantaethol yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd gwell i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn y dyfodol. Mae'r broses hon wedi cychwyn eisoes, drwy'r Gronfa Arloesi Anghenion Dysgu Ychwanegol a sefydlwyd yn 2016. Mae'r Gronfa'n canolbwyntio ar ddatblygu modelau darparu creadigol a chydweithredol a datblygu cysylltiadau rhwng y sectorau addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg bellach.

2.3.30 Mae'r cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol a datblygu trefniadau rhanbarthol cadarn ac atebol ar sail statudol yn darparu cyfleoedd pwysig a fydd yn helpu i weithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r rhaglen drawsnewid gyffredinol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn fwy effeithiol.

2.3.31 Er nad oes unrhyw ddeddfwriaeth ar ddiwygio llywodraeth leol wedi'i chadarnhau hyd yma, byddem yn ceisio sicrhau bod yr amserlen yn cyd-fynd â hyn, a byddem yn annog Awdurdodau Lleol i weithredu'n gynnar, cyn i'r gofynion statudol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ddod i rym.

2.3.32 Rydym yn ceisio barn ar ba elfennau o swyddogaethau anghenion dysgu ychwanegol Awdurdod Lleol, fel y maent wedi'u cynnig yn Rhan 2 o Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)[5], allai fod y rhai mwyaf addas i'w darparu'n effeithiol ar sail ranbarthol.

### Amddiffyn y Cyhoedd

2.3.33 Rydym yn cynnig y dylid cyflawni swyddogaethau amddiffyn y cyhoedd ar sail ranbarthol. Mae hyn yn adeiladu ar y ffordd y mae'r gwasanaeth hwn yn datblygu eisoes, ond bydd gosod gofyniad i weithio'n rhanbarthol yn rhoi hwb pellach i'r cydweithio sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r gwasanaeth i fod mor gadarn â phosibl ac yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu'r gweithlu.

2.3.34 Mae amddiffyn y cyhoedd yn faes gwasanaeth eang, ac ar hyn o bryd mae Awdurdodau Lleol yn cynnwys gwahanol swyddogaethau o dan y pennawd cyffredinol hwn. Yn bennaf, mae'n cynnwys:

a. **iechyd yr amgylchedd**: gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, rheoli llygredd, diogelwch bwyd, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch, rheoli sŵn;
b. **safonau masnach**: gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, diogelu'r defnyddiwr, masnachu twyllodrus, lles anifeiliaid; a
c. **trwyddedu:** gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, trwyddedu tacsis, masnachu ar y stryd, sefydliadau rhyw.

2.3.35 Fodd bynnag, byddem yn croesawu barn ar yr ystod o swyddogaethau y dylid eu cynnwys o dan y term 'amddiffyn y cyhoedd'. Byddwn yn dadansoddi'r ymatebion, a fydd yn helpu i lywio'r cynigion. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Awdurdodau Lleol / Rhaglen Newid

[5] http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10862/pri-ld10862-w.pdf

Amddiffyn y Cyhoedd Cymru i lunio rhestr o swyddogaethau craidd a fydd yn rhai gorfodol.

*Cwestiwn Ymgynghori 2:*
*Yn y Papur Gwyn hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o feysydd y mae'n credu y dylid eu darparu ar sail ranbarthol. A ydych yn cytuno y dylid darparu'r meysydd hyn ar sail ranbarthol? Pa ffactorau ymarferol y dylem eu hystyried wrth symud ymlaen â'r cynigion hyn? Pa bwerau 'ategol' eraill fyddai eu hangen i sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu harfer yn effeithiol ar lefel ranbarthol?*

### *Ystyried Gweithio'n Rhanbarthol*

### Tai

2.3.36 Mae awdurdodau lleol yn gweithredu ar lefelau strategol a gweithredol mewn perthynas â thai. Ar lefel strategol, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu'r angen lleol o ran tai, er enghraifft. Mae hynny wedyn yn sail i gynlluniau ar gyfer buddsoddi yn y cyflenwad tai. Yn ogystal, mae angen i'r awdurdodau sydd wedi cadw eu stoc eu hunain benderfynu faint y maent am ei fuddsoddi i gynnal a chadw'r stoc honno. Maent hefyd yn cefnogi mentrau sy'n ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o gartrefi presennol. Er enghraifft, drwy sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto.

2.3.37 Mae'r lefel weithredol yn ymdrin ag ystod ehangach o swyddogaethau sy'n aml yn dibynnu ar nifer fawr o staff ac y bydd angen parhau i'w darparu'n lleol. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogaethau landlordiaid, gwasanaethau digartrefedd statudol, darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai a gorfodi cyfraith tai gan gynnwys y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, Rhentu Doeth Cymru a rheoleiddio safleoedd cartrefi symudol. Mae Rhentu Doeth Cymru yn enghraifft dda o wasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n lleol ond yn cael ei gefnogi gan blatfform technoleg gwybodaeth unigol, cenedlaethol sy'n cael ei gynnal gan Gaerdydd ar ran yr holl awdurdodau.

2.3.38 Mae modelau cydweithredu rhanbarthol da yn bodoli eisoes, a byddant yn sylfaen dda i adeiladu syrwythur darparu cryfach arni. Er enghraifft, mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn gweithredu o dan chwe Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Wrth i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddechrau gweithredu'r cynlluniau llesiant y maent yn eu datblygu, mae angen rhagor o gysondeb rhwng agweddau ataliol y rhaglen hon a gwaith comisiynu gwasanaethau cymdeithasol, sy'n aml wedi'i dargedu at yr un grwpiau agored i niwed.

2.3.39 Mae Awdurdodau Lleol yn ystyried y cyflenwad tai fel elfen bwysig o'r strategaethau datblygu economaidd sy'n cael eu llunio o dan y bargeinion dinesig traws-awdurdod arfaethedig. Er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r prinder tai a geir ar hyn o bryd, mae angen i'r ymyriadau adeiladu tai hyn fod yn gyson â strwythurau cynllunio defnydd tir.

2.3.40 Bydd angen ystyried ymhellach beth fydd y ffordd orau i agweddau strategol y sector tai a ddarperir ar sail ranbarthol ryngweithio â'r gwasanaethau sy'n dibynnu ar fwy o staff, megis trechu digartrefedd, a fydd yn parhau i gael eu darparu'n lleol.

### Gwastraff

2.3.41 Mae gwastraff ac ailgylchu yn faes gwasanaeth lle ceir hanes o gydweithio sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Er enghraifft, o ran trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddillol. Mae potensial i adeiladu ar y gweithgarwch hwn ac ymestyn y gweithio rhanbarthol i rannau eraill o'r maes gwasanaeth. Er enghraifft, trefniadau ailgylchu a chasglu gwastraff. Wrth ystyried y posibiliadau i wneud hyn, rydym yn cydnabod bod proffil uchel i faterion casglu gwastraff ar lefel leol. Rydym hefyd yn cydnabod bod gwahanol drefniadau ar waith ar hyn o bryd, gan gynnwys gwahanol fodelau a chontractau darparu gwasanaeth. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod bod yma bosibiliadau i wneud arbedion effeithlonrwydd a lleihau allyriadau carbon ymhellach dros amser, a chyfle i ganolbwyntio ar sicrhau profiad mwy cyson i ddinasyddion.

2.3.42 Byddem yn croesawu barn pobl ar y potensial am fwy o weithio rhanbarthol yn y maes hwn ac unrhyw ffactorau penodol y dylem eu hystyried. Mae gennym hefyd ddiddordeb yn y cyfle i atgyfnerthu'r gweithgarwch rhanbarthol presennol ym maes gwastraff, fel ei fod yn gyson â'r patrwm ar gyfer gwasanaethau eraill.

### Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Ieuenctid

2.3.43 Nid yw Partneriaethau Diogelwch Cymunedol na Thimau Troseddwyr Ifanc wedi'u datganoli'n ffurfiol, ond maent yn dibynnu'n helaeth ar wasanaethau datganoledig, megis iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Os yw gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cael eu darparu ar sail patrwm rhanbarthol, dylid ystyried a ddylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Thimau Troseddwyr Ifanc weithredu ar sail patrwm tebyg i'r un ar gyfer y gwasanaethau sy'n cefnogi eu gwaith.

*Cwestiwn Ymgynghori 3:*
*Yn y Papur Gwyn hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o feysydd y mae'n credu y gellid eu darparu ar sail ranbarthol. A ydych yn credu y dylid gosod gofyniad ar Awdurdodau Lleol i weithio'n rhanbarthol i ddarparu'r swyddogaethau hyn? A oes ystyriaethau ymarferol eraill y dylem fod yn ymwybodol ohonynt?*

*Cwestiwn Ymgynghori 4:*
*A oes unrhyw swyddogaethau eraill a fyddai'n elwa o ddull systematig o weithio'n rhanbarthol?*

*Cwestiwn Ymgynghori 5:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cael hyblygrwydd i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu swyddogaethau eraill lle mae gweithio rhanbarthol yn orfodol, yn dilyn ymgysylltu â llywodraeth leol a phartneriaid eraill. A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?*

### *Hwyluso Rhagor o Gydweithio Rhanbarthol*

2.3.44 Man cychwyn yw hwn, yn hytrach na man gorffen. Mae llywodraeth leol wedi dweud wrthym ei bod yn uchelgeisiol ynglŷn â gweithio'n rhanbarthol a'i bod yn barod i wneud mwy na'r lleiafswm y mae Llywodraeth Cymru yn ei bennu lle ceir achos cryf dros weithio'n rhanbarthol. Byddem yn annog Awdurdodau Lleol i arwain y ffordd yn y maes hwn a nodi gwasanaethau eraill lle gallant ddod ynghyd a gweithio'n rhanbarthol. Dylai unrhyw benderfyniad i weithio'n rhanbarthol mewn meysydd gwasanaeth neu swyddogaethau ychwanegol

gael ei wneud ar lefel leol. Os bydd ardaloedd yn dewis bod yn fwy uchelgeisiol o ran eu trefniadau rhanbarthol, byddwn yn sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y system i alluogi hyn.

*Cwestiwn Ymgynghori 6:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r trefniadau newydd atal Awdurdodau Lleol rhag defnyddio'u pwerau presennol i gyflawni swyddogaethau ychwanegol ar sail ranbarthol. A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?*

## *2.4 Rhannu Gwasanaethau*

2.4.1 Mae gweithredu gwasanaethau cyhoeddus yn ddibynnol ar sylfaen o wasanaethau cymorth. O’r gwasanaethau hyn, mae rhai ohonynt yn drafodiadol, rhai'n arbenigol, rhai'n wynebu am allan ac eraill yn fwy mewnol. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod llawer o'r rhesymau o blaid gweithio’n fwy rhanbarthol hefyd yn wir ar gyfer y gwasanaethau cymorth hyn. Mae'r profion a nodir ym mharagraff 2.2.1 hefyd yn berthnasol i nifer o'r gwasanaethau hyn. Mae potensial hefyd iddynt gyflawni arbedion sylweddol; arbedion y gellid eu hailgyfeirio i gynorthwyo gwasanaethau’r rheng flaen. Yn anuniongyrchol, caiff awdurdodau a gwasanaethau sy'n ysgwyddo costau trafodiadol uchel eu cynnal gan y rhai sy'n cyflawni'r gweithgareddau hyn yn fwy effeithiol. Nid yw hyn yn gynaliadwy.

2.4.2 Bydd trefniadau gweithio rhanbarthol yn rhoi cyfle i Awdurdodau Lleol ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. Fel rhan o hyn, bydd cyfle i rannu adnoddau o ran y Gymraeg a sicrhau bod y rhai sy'n dymuno cael gwasanaethau Cymraeg yn gallu gwneud hynny. Bydd hyn yn cael ei alluogi drwy rannu staff a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu’r gwasanaethau hyn a rhannu'r adnoddau o ran y Gymraeg mewn gwasanaethau corfforaethol. Fel hyn, ac yn unol ag ymrwymiad blaenorol Llywodraeth Cymru, gall Awdurdodau Lleol sy'n cydweithio sbarduno gwelliannau uchelgeisiol yn safon y gwasanaethau Cymraeg. Mae’n gyfle hefyd i Awdurdodau Lleol ddod at ei gilydd i fanteisio i’r eithaf ar dechnoleg ddigidol i ehangu'r ystod o wasanaethau y gellir eu darparu yn Gymraeg.

2.4.3 Rhaid i ystyriaeth o’r goblygiadau ar gyfer y Gymraeg fod yn rhan o'r trefniadau i weithio'n rhanbarthol wrth i'r Awdurdodau ystyried eu rôl wrth gyflawni *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*.[6]

2.4.4 Cyhoeddwyd *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog*, adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol ym mis Mehefin 2016.[7] Bydd symud tuag at system o weithio'n fwy rhanbarthol yn galluogi i nifer o argymhellion yr Adroddiad gael eu rhoi ar waith megis cefnogi cydweithredu rhwng yr arweinwyr. Bydd sicrhau bod y Gymraeg yn rhan elfennol o'r agenda datblygu economaidd rhanbarthol yn bwysig i gadernid y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf.

2.4.5 Yn ein ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft y Gymraeg, *Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr yr angen i fabwysiadu gwahanol ddulliau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith mewn ardaloedd gwahanol. Ar yr un pryd, tynnodd rhai ymatebwyr ein sylw at yr angen i ddeall sut mae newidiadau yn y gymdeithas fodern a’r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau yn effeithio ar y defnydd o'r iaith. Er enghraifft,

[6] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaeth-y-gymraeg
[7] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/160614-language-work-bilingual-services-cy.pdf

wrth iddi ddod yn haws i bobl symud ac i rwydweithiau cyfathrebu ehangu, bydd angen i waith cynllunio ieithyddol ddigwydd yn gynyddol ar lefel ranbarthol, ynghyd ag ar lefel leol.

2.4.6 O dan y trefniadau rhanbarthol arfaethedig a nodir yn y papur hwn, bydd angen i Awdurdodau Lleol ystyried sut y gall gwasanaethau gweinyddol a swyddfa gefn gefnogi gweithio rhanbarthol yn fwyaf effeithiol a sut y gallant greu cyfleoedd i rannu gwasanaethau cymorth. Mae ein nod o gefnogi cadernid ac adnewyddiad mewn llywodraeth leol yn cynnwys ystyried sut a phryd y dylem ddisgwyl datblygu dulliau o rannu gwasanaethau cymorth neu weinyddol. Rydym yn cydnabod na fyddai'n angenrheidiol i wasanaethau cymorth gyfateb yn union i unrhyw drefniadau rhanbarthol newydd. Bydd hyblygrwydd yn y trefniadau rhanbarthol, fel yr eglurir mewn manylder yn adran 2.7, yn caniatáu ar gyfer ystyried gwahanol batrymau o weithio rhanbarthol. Byddai'n synhwyrol i ymgymryd â rhai gwasanaethau cymorth a gweinyddol ar sail Cymru gyfan. Rydym hefyd yn gweld hwn fel maes sy'n cynnig cyfle i integreiddio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys systemau iechyd a'r trydydd sector er enghraifft.

2.4.7 Hyd yn oed os bydd gwasanaethau'n aros yn lleol neu'n cael eu darparu'n rhanbarthol, mae'n debygol y bydd y manteision gweithredol a'r manteision i'r gost yn dal i fod yn rhai sylweddol o ganlyniad i fabwysiadu safonau cenedlaethol cyffredin, er enghraifft mewn perthynas â seiberddiogelwch a'r ddarpariaeth o dechnoleg. Mae'r datblygiadau cyflym a'r defnydd cynyddol o systemau cwmwl i ddarparu gwasanaethau TGCh allweddol fel e-bost a storio data yn cynnig posibiliadau pellach o ran effeithiolrwydd ac arbed arian. Mae cydweithio i wireddu'r manteision hyn a chreu unrhyw gydwasanaethau cymorth newydd sy'n seiliedig ar dechnolegau cwmwl yn debygol o arwain ar arbedion maint mwy. Yn yr un modd, ar ba bynnag raddfa, yr oedd gwasanaethau cymorth yn arfer cael eu cynnal, mae gwir gyfle nawr i fod yn fwy effeithiol drwy fabwysiadu safonau data agored sy'n caniatáu rhannu adnoddau data'n hawdd ac i fanteisio arnynt yn llawn.

2.4.8 Mae llywodraeth leol wedi dechrau rhannu ychydig o wasanaethau swyddfa gefn yn llwyddiannus drwy gyflawni swyddogaethau swyddfa gefn i amryw o sefydliadau llai, rhannu gwasanaethau cyfreithiol yn y Gorllewin a gwasanaethau pensiwn llywodraeth leol. Mae cyfleoedd eraill i rannu gwasanaethau wedi cael eu harchwilio hefyd ond nid ydynt wedi cael eu rhoi ar waith.

2.4.9 Dangosodd adroddiad KPMG[8] yn mis Mehefin 2015 bod amrywiaeth yn y gost fesul trafodiad o ran swyddogaethau swyddfa gefn gwahanol Awdurdodau Lleol ac nad oedd modd egluro hyn drwy gyfeirio at natur y gwasanaeth neu faint yr Awdurdod Lleol. Roedd yn dangos bod sefydlu rhyw fath o gydwasanaeth swyddfa gefn yn gallu arwain at arbedion sylweddol oedd y tu hwnt i'r rheini y gellid eu caffael wrth i Awdurdodau adolygu a chwtogi eu gwasanaethau fel eu bod yn ymdebygu i'r perfformwyr gorau. Er hyn, nid oedd yn datgan yn eglur faint yn union o arbedion y byddai'n bosibl eu gweld drwy drefnu i rannu gwasanaethau. Nid oedd ychwaith yn ystyried manteision posibl eraill i ansawdd y gwasanaeth, y gallu i wella, arbenigedd a chadernid.

[8] http://gov.wales/topics/localgovernment/publications/welsh-local-authorities-administrative-cost-review/?skip=1&lang=cy

2.4.10 O drafod gyda'r Awdurdodau Lleol, ceir cytundeb cyffredinol bod hwn yn faes lle mae’r cynnydd wedi bod yn anghyson, a bod potensial mwy na thebyg i wella effeithiolrwydd, sefydlogrwydd ac ansawdd rhai o'r gwasanaethau. Byddwn yn categoreiddio'r hyn yr ydym yn ei olygu wrth sôn am rannu gwasanaethau yn gyffredinol yn ddiweddarach yn y papur hwn. Dyma rai awgrymiadau o weithgareddau lle gellid ymgymryd â rhannu gwasanaethau (yn genedlaethol neu'n rhanbarthol):

- Llwyfannau technoleg, i gynnig gwell cysondeb ac i arbed arian e.e. Porth Cynllunio newydd, Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol
- Gwasanaethau arbenigol lle mae galw uchel am wybodaeth neu sgiliau arbenigol weithiau ond nad oes digon ar gael e.e. archwilio mewnol, sicrwydd ynghylch bygythiadau a rheolaeth seiber, y Gymraeg ac arbenigedd cyfreithiol, rhai swyddogaethau cyllid, rheoli asedau.
- Cydwasanaethau trafodiadol pan fo gweithdrefnau'n gyson neu lle gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod yn gyson e.e. casglu treth cyngor a refeniw a budd-daliadau ehangach, y gyflogres, gwasanaethau trafodiadol sy'n defnyddio'r un systemau TG.

2.4.11 Enghraifft arall yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (y Bartneriaeth) sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gweinyddol swyddfa gefn i Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, sydd wedi arwain at ostyngiad yn y gost a gwell effeithiolrwydd yn sgil cyflwyno gweithdrefnau cyffredin a rhannu arferion da. Mae hyn wedi cymryd amser ond mae wedi arwain at arbedion, gydag adroddiad blynyddol y Bartneriaeth ar gyfer 2015-16 yn datgan dros £20 miliwn o arbedion caffael yn 2015-16. Mae hefyd wedi arwain at wella’r gwasanaethau o fesur yn erbyn y dangosyddion perfformiad, cafodd £2 miliwn o arbedion uniongyrchol ei ddychwelyd i GIG Cymru yn 2015-16, yn erbyn targed o £1 miliwn. Yn ogystal, mae wedi dechrau ymgymryd â swyddogaethau a gwasanaethau newydd o dan gytundeb o ganlyniad i’w llwyddiant. Ar hyn o bryd, ni all y Bartneriaeth ddarparu gwasanaethau i sefydliadau y tu allan i'r Gwasanaeth Iechyd. Er hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yn y gorffennol ynghylch manteisio ar ei gallu deddfwriaethol i ehangu cwmpas y Bartneriaeth fel ei bod yn gallu darparu gwasanaethau i Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill. Ceir enghreifftiau o wasanaethau cyfatebol dan arweiniad llywodraeth leol hefyd.

2.4.12 Gellir categoreiddio cydwasanaethau yn gyffredinol fel a ganlyn:

- Cydgaffael – er enghraifft y Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol a'r system gaffael electronig (e-PS)
- Llwyfannau a rennir – er enghraifft Rhwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus
- Darparu Cydwasanaethau – er enghraifft y Gwasanaethau Archifau a'r Gwasanaethau Rheoleiddio
- Swyddogaethau swyddfa gefn a rennir – er enghraifft Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, gwasanaethau cyfreithiol yn y Gorllewin a gwasanaethau TGCh

2.4.13 Rydym yn awyddus i glywed barn ynghylch ymhle mae’n debygol y byddwn yn gweld gwerth mwyaf sefydlu cydwasanaethau cymorth a sut y gallwn weld rhagor o gynnydd yn gyflymach yn y maes hwn. Bydd hyn yn ein helpu i

sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu hyd yn oed yn fwy effeithiol ynghyd â chynnig manteision ehangach eraill.

2.4.14 Mae'n gyfle hefyd i edrych y tu draw i Awdurdodau Lleol ac i ddatblygu dulliau fydd yn helpu i integreiddio ar draws darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae gennym ddiddordeb clywed barn ynghylch ym mha feysydd y gellid manteisio ar gyfleoedd i wneud hyn. Mae technoleg fodern yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithio ar wasgar. Er hyn, byddai angen i'r newidiadau cyflogaeth a allai fod yn gysylltiedig â rhannu mwy o wasanaethau cymorth fod yn gyson â'n polisi o gefnogi swyddi yn y cymunedau hynny be byddai'r budd mwyaf i'r economi leol.

2.4.15 Rydym yn cydnabod bod y daith i rannu gwasanaethau wedi bod yn un hir yng Nghymru. Dros y cyfnod, rydym wedi gweld llwyddiant ond nid yw rhai prosiectau wedi dwyn ffrwyth cystal â'r disgwyl. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn ar y rhwystrau i rannu gwasanaethau yn llwyddiannus a sut y gellid goresgyn y rhain. Yn benodol, mae rhannu data wedi cael ei nodi fel rhan o'n ymarfer ymgysylltu yn yr Hydref ac mae gennym ddiddordeb yn yr heriau penodol sy'n parhau i ddeillio o hyn ac enghreifftiau o sut maent wedi cael eu goresgyn.

2.4.16 Fel rhan o'r ystyriaethau hyn, mae angen inni ddeall sut mae modd iddynt fod o gymorth i weithio rhanbarthol yn fwy cyffredinol.

*Cwestiwn Ymgynghori 7:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid trefnu a darparu rhai gwasanaethau swyddfa gefn a thrafodiadol yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Pa wasanaethau ydych chi'n meddwl fyddai'n gweithio orau o'u trefnu a'u darparu fel hyn?*

*Cwestiwn Ymgynghori 8:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod goresgyn problemau rhannu data yn allweddol er mwyn cyflawni swyddogaethau swyddfa gefn ar ffurf rhanbarthol. Pa rwystrau deddfwriaethol sydd wedi creu anawsterau o ran sicrhau cynnydd wrth rannu gwasanaethau? Sut mae'r rhain wedi cael eu goresgyn neu sut y gellid gwneud hynny? Pa heriau sy'n codi wrth rannu data?*

*Cwestiwn Ymgynghori 9:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai rhannu rhagor o swyddogaethau swyddfa gefn o gymorth. Ceir nifer o opsiynau:*

- *Galluogi Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau i lywodraeth leol (a sefydliadau eraill)*
- *Sefydlu model tebyg i ddarparu gwasanaethau swyddfa gefn i lywodraeth leol (a sefydliadau eraill)*
- *Sefydlu model arall i ddarparu gwasanaethau swyddfa gefn i lywodraeth leol (a sefydliadau eraill)*

*Pa un o'r opsiynau ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf priodol i gefnogi gweithio rhanbarthol orau? Pam? Pa fodelau eraill allai fod yn effeithiol a pha gamau fedrai Gweinidogion Cymru eu cymryd i alluogi neu i annog gweithredu modelau eraill dan arweiniad llywodraeth leol?*

2.4.17 Un maes penodol, sy'n effeithio ar fuddiannau y tu draw i lywodraeth leol, yw'r potensial i ddefnyddio a rheoli asedau'r sector cyhoeddus yn well drwy gynllunio a llywodraethu yn rhanbarthol. Os yw'r sector cyhoeddus am sicrhau

cymaint â phosibl o ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl a'r cymunedau a sicrhau gwerth am arian, rhaid iddo reoli ei adnoddau asedau eiddo gyda'r un sicrwydd ac yr un mor graff ag y mae’n rheoli ei adnoddau ariannol. Mae gan bartneriaid y sector cyhoeddus sawl enghraifft i'w cynnig o gydleoli a chyd-fuddsoddi. Drwy gydweithio â'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol ar draws y sector cyhoeddus cyfan, maent hefyd wedi cynhyrchu a chymeradwyo adnoddau defnyddiol.

2.4.18 Mae rheoli asedau mewn ffordd sy’n fwy cydweithredol a rhagweithiol ar draws sector cyhoeddus Cymru yn agor y drws i integreiddio gwasanaethau (gan gynnwys rheoli ystadau), gwella profiad cwsmeriaid ac i fod yn fwy effeithiol. Byddai hefyd yn cynnig potensial i symleiddio'r ystad a gwella ansawdd yr asedau gwasanaethau cyhoeddus drwy fuddsoddi mwy mewn llai o asedau diriaethol a rennir. Bydd hyn yn caniatáu i asedau ychwanegol gael eu cynnwys, weithiau ar y cyd, wrth ryddhau tir ar gyfer cartrefi newydd a datblygiadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae Astudiaeth Beilot yn ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf wedi bod yn edrych ar fanteision posibl y dull hwn. Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18 yn cynnwys buddsoddi £2 filiwn o'r newydd i ymgymryd â'r broses o fapio asedau ledled Cymru.

2.4.19 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall sut y gall llywodraeth leol a sefydliadau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gydweithio'n well er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu holl asedau. Mae rhwystrau i hyn yn y gorffennol wedi cynnwys diffyg gwybodaeth o ran cynlluniau a chyfleoedd y sefydliadau eraill. I gefnogi'r gwaith hwn, cynigir y dylid datblygu pecyn cymorth o arferion gorau wrth rannu asedau'n rhanbarthol.

2.4.20 I weithredu fel hyn bydd angen trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod agwedd gydweithredol yn dod yn rhan annatod o benderfyniadau cyson ynghylch cynllunio gwasanaethau ac ystadau. O gofio’r cysylltiad â'r economi, efallai y bydd yn briodol ystyried y patrwm economaidd ehangach er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus â'r sector cyhoeddus ac elwa o’r holl fanteision posib.

*Cwestiwn Ymgynghori 10:*
*Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod deall a chynllunio asedau'r sector cyhoeddus ar y cyd yn hanfodol er mwyn sicrhau’r effaith fwyaf. I wneud hyn byddai angen mapio asedau ystadau a’r bwriadau ar gyfer y dyfodol yn rhanbarthol. Sut y gellid cyflawni'r gwaith hwn o lywodraethu a phenderfynu ar y cyd yn y ffordd orau? Ai dilyn y patrwm economaidd ehangach yw'r ffordd gywir?*

## 2.5 Llywodraethu ac Atebolrwydd

2.5.1 Bydd ein cynigion ar gyfer gweithio rhanbarthol angen sylfaen gadarn o ddulliau llywodraethu oddi tanynt. Bydd hyn yn sicrhau bod agwedd gydweithredol yn rhan annatod o wneud penderfyniadau, atebolrwydd a chraffu. Bydd angen sicrhau bod Aelodau Etholedig yn parhau’n ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu, ynghyd â sicrhau bod hyblygrwydd a symlrwydd wrth graidd y trefniant llywodraethu cyffredinol.

2.5.2 Bydd model llywodraethu rhanbarthol yn ei gwneud yn ofynnol bod y penderfyniadau a wneir o fudd i’r bobl ar draws y rhanbarth, yn hytrach nag i ardaloedd lleol yn unig. Y nod yw y bydd y ddarpariaeth o wasanaethau yn gwella'n gyffredinol o ganlyniad i fabwysiadu’r dull hwn, er enghraifft drwy

ddarparu gwasanaethau na fyddai un Awdurdod yn gallu eu darparu'n unigol neu drwy ddefnyddio arbenigedd prin yn fwy effeithiol. Efallai y bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r rhanbarth ddyrannu mwy o adnoddau i un Awdurdod Lleol nag i un arall er mwyn sicrhau’r effaith fwyaf ar fater penodol. Gallai hyn fod yn ddadleuol yn lleol, ond bydd angen i'r trefniadau llywodraethu fod yn ddigon cadarn i gynnal y penderfyniadau anodd hyn a bod yn atebol amdanynt. Er mwyn sicrhau bod swyddogaethau rhanbarthol yn cael eu cyflawni'n effeithiol a bod y trefniadau atebolrwydd yn cyd-fynd â'r ardal ddaearyddol lle mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu harfer, rydym yn cynnig gosod dyletswydd ar y rhai sy'n arfer y swyddogaethau hyn a'r rhai sy'n eu dal yn atebol i ystyried y buddiannau lleol a rhanbarthol wrth iddynt ymgymryd â'u cyfrifoldebau.

2.5.3 Bydd angen i unrhyw fodel atebolrwydd ar lefel ranbarthol sicrhau eglurder i bobl leol, swyddogion, Aelodau Etholedig a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill ynghylch ymhle caiff penderfyniadau eu gwneud a chwmpas y penderfyniadau hynny. Bydd hefyd angen sicrhau eglurder o ran pa swyddogaethau sy'n cael eu harfer ymhle, pwy sy'n eu harfer ac ar ba sail. Rhaid cael proses eglur i ddirprwyo swyddogaethau i wneud penderfyniadau rhanbarthol o fewn fframwaith y bydd Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu. Rhaid hefyd cael trefniadau eglur ac ymrwymiad go iawn gan y rhai sy'n arfer y swyddogaethau'n rhanbarthol i adrodd yn ôl i'w Hawdurdodau Lleol a chael eu dwyn i gyfrif gan ei Aelodau.

2.5.4 Bydd angen i ddinasyddion a chymunedau egluro sut maent yn ymateb i’r trefniadau rhanbarthol er mwyn dylanwadu a chyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. Bydd y trefniadau newydd hyn yn ehangu rôl yr Aelodau Etholedig ymhellach. Bydd ganddynt ran hanfodol i'w chwarae wrth sicrhau bod y bobl y maent yn eu cynrychioli'n gallu defnyddio'r system newydd ac ymddwyn fel eiriolwyr iddynt.

2.5.5 Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu fframwaith clir ar gyfer dwyn y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau i gyfrif. Bydd angen craffu ar drefniadau rhanbarthol yn briodol er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol, eu bod yn sicrhau gwerth am arian, a’u bod yn arwain at ganlyniadau gwell ar lefel ranbarthol. Bydd angen tryloywder, yn enwedig yn yr amgylchiadau hynny lle bo pethau'n mynd o chwith.

2.5.6 Byddwn yn darparu fframwaith fydd yn cynnwys dewis o ran sut i gynnal y gwaith craffu. Bydd y dewis yn cynnwys parhau i graffu ym mhob Prif Gyngor o fewn trefniant rhanbarthol, sefydlu pwyllgor craffu rhanbarthol sefydlog, ymgymryd â gwaith craffu rhanbarthol ar sail gorchwyl a gorffen neu fabwysiadu cyfuniad o'r dulliau hyn. Wrth graffu ar swyddogaeth ranbarthol, cynigir y dylid gosod dyletswydd ar yr Aelodau Etholedig i ystyried y budd rhanbarthol ynghyd â buddiannau eu Hawdurdod Lleol eu hunain.

2.5.7 Rydym hefyd eisiau i Awdurdodau Lleol fanteisio ar y cyfle y mae'r trefniadau rhanbarthol newydd yn ei gynnig i ddatblygu dulliau craffu praff. Golyga hyn symud i ffwrdd o graffu ar fanion gweithrediadau o ddydd i ddydd a chanolbwyntio’n hytrach ar yr hyn sy'n effeithio ar ddinasyddion fwyaf, ynghyd â materion newydd neu ddadleuol. Golyga hefyd y bydd angen mabwysiadu dulliau gwahanol gan gynnwys defnyddio technolegau digidol a thechnolegau eraill i roi rôl amlwg a llais clir i'r dinasyddion yn y broses.

2.5.8 Ceir nifer o ddulliau posibl a allai fod yn sail i'r trefniadau cyffredinol newydd ar gyfer llywodraethu rhanbarthol. Mae'r rhain yn amrywio o drefniadau gwirfoddol ar y cyd: y cyd-bwyllgor 'traddodiadol', i sefydlu cyrff rhanbarthol newydd sy'n arfer swyddogaethau ac yn gyfrifol am y staff a’r cyllidebau a gaiff eu trosglwyddo, er enghraifft 'awdurdod cyfunol'. Wrth drafod gyda llywodraeth leol dros yr Hydref, clywsom mai'r model mwyaf priodol, o bosib, ar gyfer llywodraethu’n rhanbarthol yw sefydlu cyd-bwyllgor wedi'i gryfhau. At ddiben y Papur Gwyn hwn, cyfeirir at y model hwn fel 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu'.

2.5.9 Byddai'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu'n adeiladu ar drefniadau presennol, cyfarwydd cyd-bwyllgorau, ond byddai hefyd yn cynnig manteision ychwanegol fel gofyniad i 'feddwl' yn rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig creu llyfr rheolau cyffredin ar gyfer y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar ffurf deddfwriaeth i sicrhau cysondeb, fel bod pawb yn gweithio o un sylfaen cadarn, cyffredin. Bydd y darpariaethau hyn yn creu fframwaith y byddai gofyn i'r Awdurdodau Lleol ddirprwyo awdurdod i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu oddi tano. Unwaith y byddant wedi cael eu llunio, cynigwn y bydd yn ofynnol i’r Awdurdodau Lleol gydweithio’n unol â hynny. Ni fyddant yn cael diystyru eu dyletswydd i wneud penderfyniadau rhanbarthol.

2.5.10 Rydym yn cynnig mai'r Aelod Etholedig lleol â'r cyfrifoldeb dros y swyddogaethau sy'n cael eu harfer gan y Cyd-bwyllgor penodol fyddai aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Rydym yn rhagweld efallai y bydd mwy nag un Cyd-bwyllgor Llywodraethu i bob rhanbarth, yn ddibynnol ar yr ardal ddaearyddol lle'r oedd y swyddogaethau'n cael eu harfer. Opsiwn arall fyddai cael un Cyd-bwyllgor Llywodraethu a’i fod yn sefydlu nifer o is-bwyllgorau gyda chyfrifoldeb am swyddogaethau a gwasanaethau penodol.

2.5.11 Pan fo Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn arfer swyddogaethau mewn nifer o feysydd gwasanaeth neu eu bod yn gor-gyffwrdd â buddiannau mwy nag un portffolio, bydd hyblygrwydd naill ai i ganiatáu i un Aelod gynrychioli’r Awdurdod Lleol yn gyfan neu i gael dau gynrychiolydd. Byddai angen sicrhau bod cynrychiolaeth gyfatebol o'r Awdurdodau Lleol eraill yn y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

2.5.12 Yn yr un modd, rydym yn bwriadu datblygu fframwaith cyffredin i gefnogi'r gwaith o gyfuno cyllidebau ar gyfer y swyddogaethau a arferir gan y Cyd-bwyllgorau Llywodraethu. Bydd y fframwaith hwn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â llywodraeth leol, yn unol â'r ffordd y caiff rheolau’r setliad llywodraeth leol cyffredin eu datblygu ar y cyd.

2.5.13 Yn seiliedig ar ein trafodaethau gyda'r Awdurdodau Lleol, cynigir y bydd Llywodraeth Cymru'n creu fframwaith ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Llywodraethu a fydd yn cynnwys:

- **trefniadau aelodaeth** – rydym yn cynnig mai'r Aelod neu Aelodau Etholedig sydd â chyfrifoldeb dros y swyddogaeth(au) gaiff ei harfer gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ddylai hefyd fod yn rhan o'r Cyd-bwyllgor. Dylai pob Awdurdod Lleol gael yr un nifer o aelodau.
- **trosglwyddo swyddogaethau** – rydym yn cynnig y byddwn yn rhagnodi'r swyddogaethau y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol eu harfer yn rhanbarthol. Bydd y broses drosglwyddo felly'n canolbwyntio ar sicrhau bod eglurder a thryloywder i Aelodau Etholedig a'r cyhoedd o ran pwy yw cynrychiolwyr

pob Awdurdod Lleol a'r prosesau atebolrwydd sy'n eu lle i'w dwyn i gyfrif. Ni fydd dewis i wrthod trosglwyddo'r swyddogaethau.

- **trefniadau pleidleisio** – rydym yn cynnig y bydd pob Awdurdod Lleol yn meddu ar yr un nifer o gynrychiolwyr a phŵer pleidleisio mewn unrhyw Gyd-bwyllgor Llywodraethu.
- **llif cyllid o Awdurdodau Lleol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu** – rydym yn cynnig darparu fframwaith gorfodol newydd ar gyfer hyn ac y byddwn yn ei ddatblygu mewn partneriaeth â llywodraeth leol.
- **trefniadau craffu** – byddwn yn darparu ystod o opsiynau ar gyfer y dull o graffu ac yn sicrhau bod y rhai sy'n ymgymryd â'r gwaith o dan ddyletswydd i ystyried y buddiannau rhanbarthol ynghyd â'r rhai lleol.

2.5.14 Byddwn yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol i'n helpu ni i ddatblygu fframwaith statudol y bydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn gweithredu ynddo. Mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth yn bodoli'n barod sy'n galluogi cydweithio neu'n gwneud hynny'n ofynnol mewn perthynas â'r swyddogaethau a nodir uchod. Yn unol â'n nod i greu ffordd syml, hyblyg a chyson o lywodraethu'n rhanbarthol lle mae penderfyniadau democrataidd yn rhan annatod o'r gwaith, byddwn yn gofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried y cyfreithiau hyn a ph'un a ddylid eu defnyddio fel rhan o'r fframwaith, neu a ddylid eu diddymu a'u disodli.

2.5.15 Rydym yn rhagweld y bydd y trefniadau hyn yn datblygu gyda threigl amser ac y bydd modd i'r hyn sy'n cael ei wneud ar y cyd a'r posibiliadau o ran yr hyn y gellid ymgymryd ag ef yn rhanbarthol gynyddu dros amser.

*Cwestiwn Ymgynghori 11:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cyd-bwyllgor wedi'i gryfhau (Cyd-bwyllgor Llywodraethu) yn fodel llywodraethu priodol ar gyfer gwasanaethau a gaiff eu darparu'n rhanbarthol. Ei bwriad yw creu fframwaith ar gyfer llywodraeth leol fel eu bod yn gallu cyflawni hyn. Pa drefniadau democrataidd ar gyfer atebolrwydd a chraffu ddylai fodoli mewn model o'r fath? A ddylai pob Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r Cyd-bwyllgor gael yr un hawliau pleidleisio neu a ddylid eu pwysoli mewn rhyw ffordd?*

## *2.6 Trefniadau Rhanbarthol*

2.6.1 Darlun cymhleth iawn yw'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer llywodraeth leol. Ceir trefniadau gweddol gyson mewn rhai rhannau o Gymru, er enghraifft wrth gymharu'r Gogledd a Gwent, ond maent yn amrywio llawer mwy mewn mannau eraill. Esblygodd y trefniadau fel hyn am amrywiol resymau, ac wrth drafod gydag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol gwelwyd dyhead gwirioneddol i symleiddio'r trefniadau a lleihau'r amser y mae Aelodau Etholedig a swyddogion yn ei dreulio'n cymryd rhan mewn amrywiol drefniadau cydweithredol sy'n aml yn gorgyffwrdd neu'n dyblygu gwaith i raddau.

2.6.2 Ar sail hynny, a gan adlewyrchu'r sylwadau a fynegwyd ynghylch patrymau daearyddol rhesymegol posibl, tynnwyd sylw at ddau batrwm fel ffyrdd priodol, o bosibl, i weithredu swyddogaethau rhanbarthol yn Natganiad Llafar

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ym mis Hydref.[9] Y ddau batrwm hynny oedd y patrwm 'datblygu economaidd' (sy'n seiliedig ar y Dinas-ranbarthau presennol a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) a phatrwm presennol y Byrddau Iechyd Lleol.

2.6.3 Ers hynny, rydym wedi bod yn trafod manylion sut y byddai'r trefniadau newydd arfaethedig ar gyfer gwaith rhanbarthol yn gweithredu. Daeth yn glir na fyddai dull gweithredu syml o bosibl yn arwain at y manteision mwyaf, am resymau ymarferol, ac y byddai rhywfaint o hyblygrwydd yn fanteisiol. Mae'r heriau yn fwy mewn rhai rhannau o Gymru nag eraill gan fod gan rai fwy o amrywiaeth eisoes yn eu trefniadau. Mewn rhai achosion, gallai gorfodi'r patrwm byrddau iechyd olygu dadgyfuno trefniadau cydweithredol mwy sydd eisoes yn bodoli (er enghraifft y Consortia Addysg) neu chwalu'r ddarpariaeth bresennol o gydwasanaethau (er enghraifft Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg). Ni fyddai'r naill na'r llall o'r canlyniadau hyn yn ddymunol.

2.6.4 Dan y trefniadau presennol, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o bartneriaeth ehangach gyda Chastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Datblygodd y trefniadau hyn dros gyfnod o amser, ac maent yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, ar gyfer gwasanaethau eraill, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio mewn cyfuniadau gwahanol - yn fwyaf amlwg ar gyfer gwella addysg, lle mae'n rhan o Gonsortiwm Addysg Canolbarth y De. Mae Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn rhan o Brifddinas-ranbarth Caerdydd.

2.6.5 Mae'r argymhellion yn cyflwyno cyfle i edrych eto ar sefyllfa Pen-y-bont ar Ogwr, ac i weld a ellid hybu cysondeb drwy resymoli patrwm y gwasanaethau rhanbarthol y mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd.

*Cwestiwn Ymgynghori 12:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ystyried sefyllfa Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn gosod trefniadau sy'n lleihau'r cymhlethdod ar gyfer Awdurdodau a'u partneriaid. Er bod hyn yn fater o bwys sylfaenol i Ben-y-bont ar Ogwr, mae buddiannau dilys gan bartneriaid eraill hefyd, gan gynnwys Awdurdodau Lleol eraill a Byrddau Iechyd Lleol. Rydym felly'n gofyn am sylwadau ynghylch y ffordd orau o roi sylw i'r materion a nodwyd yma.*

2.6.6 Yn ystod ein trafodaethau yn yr hydref, cyfeiriodd nifer o Arweinwyr a swyddogion at fanteision hyblygrwydd a'r gallu i gydweithio ar lefel isranbarthol (er enghraifft o fewn patrwm daearyddol y Gogledd) neu gydweithio lle bo tebygrwydd o ran demograffeg neu leoliad (er enghraifft ar draws dinasoedd yn y De-ddwyrain).

2.6.7 Mae'r ystyriaethau hynny yn rhai manwl iawn ac rydym wedi nodi pedwar dull gweithredu posibl wrth edrych ar fater y patrwm daearyddol:

Opsiwn 1: Pennu patrymau daearyddol gorfodol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol

2.6.8 Byddai Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol gweithio'n rhanbarthol drwy bennu pa swyddogaethau sydd i'w harfer ar ba batrwm daearyddol. Dyma'r dull gweithredu gwreiddiol sy'n codi o drafodaethau yn ystod yr haf, wedi'i seilio ar y patrwm 'datblygu economaidd' a ffiniau Byrddau Iechyd Lleol.

[9] http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3994&language=en&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=04/10/2016&endDt=04/10/2016#427466

Dyma fyddai'r dull gweithredu mwyaf caeth. Y fantais fyddai eglurder a symlrwydd. Gellid darparu mwy o hyblygrwydd drwy ganiatáu cyfuno mwy nag un patrwm daearyddol er mwyn darparu gwasanaethau penodol ar draws ardal ehangach. Er enghraifft, cydweithio rhanbarthol ar draws ffiniau dau Fwrdd Iechyd Lleol.

Opsiwn 2: Pennu fframwaith

2.6.9 Yr opsiwn hwn fyddai'n cynnig yr hyblygrwydd mwyaf. Byddai Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol gweithio'n rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau penodol, heb bennu'r union batrwm daearyddol i’w ddilyn, gan adael i hynny gael ei benderfynu’n lleol. Byddai Llywodraeth Cymru'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud y penderfyniad lleol hwnnw. Er enghraifft, gallai hyn olygu nodi lleiafswm nifer yr Awdurdodau Lleol sydd angen bod yn rhan o drefniant rhanbarthol neu ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol ystyried rhai pethau penodol, fel ffiniau Byrddau Iechyd Lleol.

Opsiwn 3: Fframwaith a phatrwm daearyddol

2.6.10 Dull gweithredu arall yw pennu ardal ddaearyddol ar gyfer rhai swyddogaethau, er enghraifft gellid dweud y dylai cynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir strategol ddigwydd ar sail patrwm daearyddol datblygu economaidd. Fodd bynnag, ar gyfer swyddogaethau eraill, fel amddiffyn y cyhoedd, byddai'n rhaid i drefniadau gweithio rhanbarthol gydymffurfio â'r fframwaith gweithio rhanbarthol, er enghraifft lleiafswm o Awdurdodau Lleol yn cydweithio, a/neu ystyried ffiniau Byrddau Iechyd Lleol.

Opsiwn 4: Ymgynghori Rhanbarthol

2.6.11 Ffordd arall bosibl o wneud gweithio rhanbarthol yn ofynnol yw un lle byddai Llywodraeth Cymru'n cymryd rhan mewn proses ymgynghori gyda llywodraeth leol er mwyn penderfynu ar y patrwm daearyddol priodol ar gyfer pob gwasanaeth / swyddogaeth, gyda'r patrymau daearyddol yn dod yn orfodol ar ddiwedd y broses honno.

### 2.7 Dull gweithredu a ffefrir

2.7.1 Wedi ystyried yr adborth sydd eisoes wedi dod i law ar y mater pwysig hwn ac ymgymryd â'n hasesiad ein hunain o'r opsiynau, yr opsiwn a ffefrir gennym yw Opsiwn 3. Credwn fod y dull gweithredu cymysg hwn yn cynnig cydbwysedd priodol rhwng mynnu gweithio mewn ffordd fwy systematig a digon o hyblygrwydd i ganiatáu i Awdurdodau Lleol ddod ynghyd i osod trefniadau addas ar gyfer amodau lleol.

2.7.2 Roedd croeso cyffredinol i bennu patrwm daearyddol ‘datblygu economaidd’. Rydym yn cynnig y dylai'r patrwm hwn gael ei seilio ar ranbarthau CLlLC, sy'n cyd-fynd yn gyffredinol â'r ardaloedd datblygu economaidd presennol: Prifddinas-ranbarth Caerdydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Rydym yn disgwyl y byddai'r gyfres neilltuol o drefniadau sydd eisoes yn eu lle ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru a Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn parhau dan ambarél ardal 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' y Canolbarth a'r De-orllewin.

2.7.3 Yn amodol ar adborth yr ymgynghoriad Papur Gwyn hwn, rydym yn disgwyl y byddai'r patrwm daearyddol ‘datblygu economaidd’ yn cael ei bennu ar gyfer cynllunio trafnidiaeth, rhai swyddogaethau penodol yn ymwneud â chynllunio defnydd tir strategol a datblygu economaidd ar ran yr Awdurdodau sy'n rhan ohonynt. Byddwn yn darparu hyblygrwydd yn y trefniadau hyn er mwyn

sicrhau bod modd cynnal cwmpas trefniadau Bargeinion Dinesig presennol, a fyddai'n ystyriaeth benodol wrth ehangu Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

2.7.4 Ar gyfer y swyddogaethau eraill a nodwyd yn adran 2.3, yr Awdurdodau Lleol dan sylw fydd yn penderfynu ar y patrymau daearyddol penodol i'w mabwysiadu, o fewn fframwaith a fyddai'n arwain y penderfyniad hwnnw gyda'r nod o ddileu gorgyffwrdd a hyrwyddo symlrwydd cymaint â phosib.

2.7.5 Er mwyn hwyluso penderfyniadau ynghylch gosod trefniadau rhanbarthol eraill, byddai'r prif ’Gyd-bwyllgor Llywodraethu’ sy'n gweithredu ar lefel patrwm ‘datblygu economaidd’ yn goruchwylio sefydlu unrhyw drefniadau is-ranbarthol ac yn goruchwylio eu trefniadau gwaith. Rydym yn cynnig bod gofyn i'r prif 'Gyd-bwyllgor Llywodraethu' osod a monitro'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhanbarth a sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu mewn ffordd effeithiol ac effeithlon a bod y rhanbarth yn gweld canlyniadau llwyddiannus.

2.7.6 Ar gyfer rhai swyddogaethau mae trefniadau rhanbarthol sefydlog eisoes yn eu lle a fyddai'n golygu gweithio ar draws y ffiniau hyn, er enghraifft Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin, neu gydweithio rhwng chwe Awdurdod y Gogledd a Phowys ar Gydgynllunio Mwynau a Gwastraff. Ni fyddem yn gofyn i'r trefniadau gwaith hyn gael eu newid, ond byddem yn disgwyl i'r 'Cyd-bwyllgorau Llywodraethu' dan sylw edrych arnynt er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle.

2.7.7 Yn yr un modd, efallai bod cyfleoedd i weithio ar draws patrymau daearyddol rhanbarthol pan fo hynny’n briodol. Er enghraifft, mae Adroddiad Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog10 yn argymell datblygu strategaeth ieithyddol-economaidd ar gyfer Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Byddai hyblygrwydd mewn trefniadau gwaith rhanbarthol yn caniatáu ystyried dull gweithredu o’r fath.

2.7.8 Wrth ystyried anghenion pobl a chymunedau lleol heddiw ac yn y dyfodol, efallai y bydd Awdurdodau Lleol am ystyried uno'n wirfoddol (gweler Adran 3). Wrth ystyried cynigion i uno'n wirfoddol, bydd angen ystyried yr effaith ar batrymau daearyddol datblygu economaidd.

2.7.9 Mae'n cynigion yn datblygu trefniadau sydd eisoes yn bodoli, ac yn eu rhoi ar sylfaen glir a chyson. Dangosodd ein trafodaethau yn ystod yr hydref a chynigion CLlLC awydd posibl i gymryd trefniadau llywodraethu gam ymhellach i wella canlyniadau yn y dyfodol. Awgrymwyd y dylai Gweinidogion Cymru fynd ar ôl deddfwriaeth a fyddai'n galluogi creu Awdurdodau Cyfun maes o law, lle bo achos cadarn dros hynny. Rydym yn cynnig y gellid gwneud darpariaeth o'r fath wrth ochr darpariaeth ar gyfer y cynigion i ddefnyddio 'Cyd-bwyllgorau Llywodraethu' yn ôl y gofyn gan awdurdodau lleol i symud ymlaen gyda'u hamcanion.


2.7.10 Rydym yn cynnig y dylid cynnal adolygiad o'r trefniadau rhanbarthol newydd hyn ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei rhoi ar waith er mwyn cadw llygad ar y cynnydd wrth sicrhau newid ac ystyried effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y trefniadau newydd.

---

[10] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/160614-language-work-bilingual-services-cy.pdf

# CYMRU

## Ardaloedd 'Y Cyd-Bwyllgorau Llywodraethu' Arfaethedig




© Hawlfraint y Goron 2017
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/110/16.17
Ionawr 2017

*Cwestiwn Ymgynghori 13:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai 'Opsiwn 3: Fframwaith a phatrwm daearyddol' yw'r dull mwyaf priodol ar gyfer gwaith rhanbarthol yn y dyfodol.*

- *Beth yw'ch barn chi am y cynnig i bennu patrwm daearyddol datblygu economaidd ar gyfer 'Cyd-bwyllgorau Llywodraethu'?*
- *Sut fedrai fframwaith ar gyfer gweithio'n is-ranbarthol mewn meysydd gwasanaethau eraill weithredu'n ymarferol?*
- *A yw'n briodol cael hyblygrwydd er mwyn caniatáu i waith rhanbarthol groesi ffiniau datblygu economaidd dan amgylchiadau eithriadol? Pa amgylchiadau fyddai'r rheini?*
- *Sut ddylai trefniadau llywodraethu'r 'Cyd-bwyllgorau Llywodraethu' datblygu economaidd oruchwylio gwaith is-ranbarthol?*

*Cwestiwn Ymgynghori 14:*
*Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ynghylch priodoldeb ceisio pwerau i greu Awdurdod Cyfun. Yn benodol, croesawir sylwadau ynghylch pa ddisgwyliadau gofynnol y dylid eu cael wrth ystyried priodoldeb creu Awdurdod Cyfun.*

## 2.8 Ariannu Trefniadau Rhanbarthol

2.8.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu cyllid ar gyfer llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon cyllidol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn heriol inni i gyd. Mae'n annhebygol y bydd cynnydd sylweddol yn lefelau'r gefnogaeth ariannol yn y dyfodol - mae rhagolygon cyllidol anodd bellach yn beth arferol, yn anffodus. Wrth ochr hyn mae'r pwysau ariannol parhaus ar ein holl gyllidebau; galw cynyddol am nifer o wasanaethau; a heriau economaidd anodd. O ganlyniad, mae llywodraeth leol yn parhau i leisio pryderon am lai o le mewn cyllidebau i ddarparu gwasanaethau ac, yn bwysig iawn, i fuddsoddi mewn gwelliannau a modelau cyflawni trawsnewidiol newydd. Felly rhaid inni barhau i edrych ar y trefniadau cyllido er mwyn sicrhau eu bod yn ateb y diben wrth i'r gwasanaethau esblygu.

2.8.2 Bydd rhaid i unrhyw drefniadau cyllido rhanbarthol fod yn syml ac yn ymarferol, gan gynnig hyblygrwydd i fodloni gwahanol swyddogaethau, gwahanol rolau a chylchoedd gwaith, a gwahanol batrymau daearyddol. Rhaid i'r trefniadau hyn fod yn ddigon ystwyth i gynnal model newydd. Yn bwysig iawn, rhaid i'r trefniadau cyllido rhanbarthol fod yn dryloyw. Rhaid i lif y cyllid rhwng cyrff cyhoeddus fod yn ddealladwy i ddinasyddion, i'r Llywodraeth, i'r rheoleiddwyr ac i lywodraeth leol ei hun. Mae amrywiol fodelau cyllido posibl ar gael gan gynnwys codi praesept, codi ardoll, cyllid grant, ailgodi tâl a chyllidebau cyfun. Wrth drafod gyda llywodraeth leol, ymddengys mai cyfuno cyfraniadau'r awdurdodau lleol dan sylw yw'r ateb mwyaf ymarferol.

2.8.3 Mae Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill eisoes yn cyllido nifer o drefniadau cydweithredol. Mae'r prif awdurdodau yn cyfuno adnoddau er mwyn cefnogi gwaith ar y cyd ac mae hyn yn fodel cyllido sefydlog, gydag ychydig iawn o rwystrau a chryn dipyn o hyblygrwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r Cyd-bwyllgorau presennol yn pennu awdurdod lleol arweiniol mewn perthynas â chyllid, ac mae'r trefniant hwn i'w weld yn un priodol o fewn cyd-destun rhanbarthol. Rydym yn bwriadu adeiladu ar y trefniadau presennol lle mae'r rhain yn gweithio orau, yn hytrach nag ychwanegu at y cymhlethdod drwy orfodi model cyllido newydd a chymhleth.

2.8.4 Rydym yn cynnig y dylid datblygu fframwaith cyllidol gorfodol er mwyn sicrhau bod gwariant pob 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' yn cael ei ddiwallu drwy gyfuno cyfraniadau oddi wrth yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono.

2.8.5 Byddai'r symiau i'w cyfuno'n cael eu pennu drwy gytundeb yn lleol, gan ddarparu hyblygrwydd ac ymreolaeth i lywodraeth leol. Nodwedd hanfodol o'r model hwn yw bod yr awdurdodau dan sylw'n cytuno ar y lefelau a dosbarthiad y cyllid i'r swyddogaethau gael eu cyflawni'n rhanbarthol. Bydd gallu awdurdodau i gyrraedd at gytundebau cyllido o'r fath a'u mabwysiadu yn sylfaenol i'w llwyddiant wrth gydweithio i gyflawni swyddogaethau ar sail ranbarthol. Argymhellir y bydd y fframwaith hefyd yn darparu trefniant diofyn y gellid ei ddilyn lle na cheir cytundeb lleol. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu fframwaith o'r fath mewn partneriaeth â llywodraeth leol, bydd angen ystyried ble mae'r awdurdod cyfreithiol i wario arian cyhoeddus o fewn trefniant rhanbarthol. Er enghraifft, mae nifer o drefniadau cydweithredol yn cynnwys cytundebau cyfreithiol rhwng Awdurdodau i gadarnhau pan fo prif Awdurdod yn gweithredu, ei fod yn gweithredu ar ran y lleill fel nad yw'r atebolrwydd cyllidol yn syrthio ar un Awdurdod unigol.

2.8.6 Wrth gyfrannu'n ariannol at wariant rhanbarthol, byddai angen i Awdurdodau Lleol gymryd hyn i ystyriaeth wrth osod eu cyllidebau blynyddol ac mewn perthynas â'u dyletswydd statudol i osod cyllideb gytbwys. Bydd hyn yn gofyn am drafodaeth gynnar ar lefel y gwariant rhanbarthol a'r cyfraniadau lleol sy'n angenrheidiol. Byddai'n briodol i bob 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' gynhyrchu Cynllun Ariannol Tymor Canolig (a chynllun cyflawni tymor canolig cysylltiedig), er mwyn i Awdurdodau Lleol fedru cynllunio'u cyllid ymlaen llaw. Er mwyn cynnig tryloywder i'r cyhoedd, credwn y dylai fod gofyn i unrhyw drefniadau rhanbarthol gydbwyso incwm a gwariant yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn ystyried a fyddai cyfleuster cronfeydd cyfyngedig yn ymarferol.

2.8.7 Mae'r trefniadau cydweithredol presennol (dan Gyd-bwyllgor) yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifo ac archwilio ffurfiol. Nid ydym yn gweld bod angen newid y gofynion hyn. Mae gan y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) swyddogaeth bwysig o sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus ac arbedion. Mae gan y Prif Swyddog Cyllid ddyletswyddau statudol penodol a chyfrifoldeb ymddiriedol i'r trethdalwyr. Mae gan y Prif Swyddog Cyllid (a'r Swyddog Monitro) swyddogaeth yn cynghori a fydd penderfyniadau penodol yn debyg o fynd yn groes i'r fframwaith polisi neu gyllideb y Cyngor. Mae nifer o Brif Swyddogion Cyllid hefyd yn ysgwyddo'r swyddogaeth hon ar gyfer gwasanaethau penodol neu drefniadau cydweithredol. Bydd natur y swyddogaeth hon yng nghyd-destun mwy o waith rhanbarthol yn destun trafodaethau manwl gyda llywodraeth leol wrth ddatblygu'r fframweithiau cyllid a llywodraethu.

*Cwestiwn Ymgynghori 15:*

*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid datblygu fframwaith cyllidol gorfodol er mwyn sicrhau bod gwariant pob 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' yn cael ei ddiwallu drwy gyfraniadau cyfun oddi wrth yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono.*

- *A ddylai gwariant pob 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' gael ei ddiwallu gan yr Awdurdodau Lleol sy'n rhan ohono, gan gytuno ar y cyfrannau yn lleol, er mwyn sicrhau'r dull gweithredu mwyaf hyblyg?*

- *A ddylai'r fframwaith ddarparu safbwynt diofyn os nad oes modd dod i gytundeb yn lleol, a sut y gellid sbarduno proses o'r fath?*
- *Pa ystyriaethau pellach allai fod yn berthnasol neu angen eu cynnwys mewn fframwaith cyllidol?*

### 2.9 Diwygiadau Ehangach i Gyllid

2.9.1 Mae Llywodraeth Cymru hefyd am edrych ar ddiwygio system gyllid llywodraeth leol yn ehangach, er mwyn bodloni ein nod o wella cynaliadwyedd gwasanaethau a sicrhau mwy o degwch i ddinasyddion a busnesau Cymru. Mae swyddogaeth llywodraeth leol yn y dyfodol fel sy'n cael ei amlinellu yn y Papur Gwyn hwn yn effeithio ar y newidiadau ehangach y gellid eu gwneud i'r system gyllid. Cyhoeddwyd datganiad ar wahân ar 31 Ionawr 2017 yn rhoi rhagor o fanylion am y meysydd y bwriedir eu harchwilio. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch y cynigion hyn wrth iddynt gael eu datblygu.

### 2.10 Materion y Gweithlu

2.10.1 Rhinwedd fwyaf gwerthfawr y gwasanaethau cyhoeddus yw'r gweithlu. Er mwyn i wasanaethau cyhoeddus ffynnu yn y dyfodol, rhaid inni feithrin a datblygu ein staff i sicrhau bod y gallu ganddynt i addasu i ateb anghenion cyfnewidiol ein cymdeithas a pharhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ardderchog.

2.10.2 Mae'n hanfodol denu a chadw ein talent gorau er mwyn ysgogi'r trawsnewid yr ydym yn anelu tuag ato, ac mae angen cyfleoedd diddorol ac amrywiol ar bobl i'w denu i ymrwymo i yrfa mewn gwasanaethau cyhoeddus. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i unigolion, rhaid i Gymru ddatblygu gwasanaeth cyhoeddus sy'n galluogi staff i ddatblygu gyrfaoedd hyblyg ar draws yr holl wasanaeth, gan rannu profiadau a ffyrdd o weithio. Bydd hyn yn golygu bod modd i wasanaethau cyhoeddus gydweithio'n well er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau yn effeithiol.

2.10.3 Mae sefydlu gwasanaethau cadarn yn bwysicach na dim i ddyfodol llywodraeth leol. Mae materion yn ymwneud â gallu a graddfa yn effeithio ar nifer o rannau o lywodraeth leol a'r sector cyhoeddus ehangach, bydd angen rhannu sgiliau arbenigol ac arbenigedd technegol i'w defnyddio i gydweithio ar draws ffiniau sefydliadol a sectorau. Mae nifer o sefydliadau eisoes yn cydweithio i wneud hyn.

2.10.4 Nid oes un model unigol yn ymwneud â'r gweithlu wedi'i fabwysiadu gan y sefydliadau hyn. Mae rhai wedi dewis gadael staff fel ag y maent a rheoli ar draws nifer o wahanol gyflogwyr. Mae eraill wedi dewis trosglwyddo staff neu greu strwythur staffio unigol ar y cyd. Mae rhai wedi dewis cysoni telerau ac amodau, ac eraill wedi cadw telerau ac amodau ar wahân i reoli staff ar draws sawl sefydliad. Yn dilyn y cytundeb statws unigol, cynhaliwyd proses o werthuso a graddio swyddi gan lywodraeth leol yn unigol. Mae hyn wedi darparu cysondeb o fewn sefydliadau, fodd bynnag mae anghysondeb yn parhau i fodoli ar draws llywodraeth leol yn gyfan. Mae gan lywodraeth leol gyfle i ddatblygu dull gweithredu mwy cyson, lle bo'n briodol, yn ymwneud â materion y gweithlu er mwyn esmwytháu’r llwybr tuag at waith rhanbarthol, gan wneud yn siŵr nad yw'r cydraddoldebau a sicrhawyd gan Awdurdodau Lleol unigol drwy weithredu'r cytundeb statws unigol yn cael eu colli.

2.10.5 Ni fydd Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus bellach yn cael ei wneud yn gorff statudol ac fe fydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2018. Hyd at hynny,

bydd yn parhau i ddarparu cyngor ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu dan gyfarwyddyd strategol Cyngor Partneriaeth y Gweithlu. Dros y misoedd nesaf, bydd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn destun adolygiad ehangach, wedi'i gydgynhyrchu gan bartneriaid cymdeithasol yn cydweithio â'i gilydd. Pwrpas yr adolygiad hwn fydd sicrhau fod gan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu swyddogaethau a chyfrifoldebau clir a strwythurau tridarn, a'i fod mewn lle da i ysgogi gwaith partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru o fewn y cyd-destun cyfnewidiol a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn.

2.10.6 Ym mis Awst 2015 sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen Cyngor Partneriaeth y Gweithlu er mwyn canolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu a symudedd. Mae gwaith y grŵp yn parhau. Gall fod angen o hyd i Weinidogion Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau statudol ar faterion fel dulliau o recriwtio, cadw, cynllunio a rheoli perfformiad y gweithlu.

2.10.7 Bydd y cynigion am waith rhanbarthol, o'u derbyn, yn effeithio ar weithlu llywodraeth leol. Bydd materion ynghylch manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gwaith rhanbarthol i'r gweithlu llywodraeth leol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl, yn cael eu cyflwyno i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu.

2.10.8 Darparodd yr ymgynghoriad blaenorol sylwadau cymysg ar werth pŵer o'r fath i wneud canllawiau statudol i Lywodraeth Cymru. Mae Atodiad Un yn gosod crynodeb byr o gynigion blaenorol a'u statws ar hyn o bryd. Credwn y byddai'n ddefnyddiol medru cyhoeddi canllawiau statudol lle bo angen clir er mwyn helpu sefydliadau i symud tuag at ddull mwy cyson, rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau. Bwriad Llywodraeth Cymru fyddai cyhoeddi canllawiau ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu ddim ond os yw'n gwella datblygiad y ddarpariaeth genedlaethol neu ranbarthol o wasanaethau cyhoeddus.

*Cwestiwn Ymgynghori 16:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd angen cyhoeddi canllawiau statudol lle bo angen clir er mwyn helpu sefydliadau i symud tuag at ddull mwy cyson, rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau. A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Os ydych yn cytuno, pa fath o gyngor, canllawiau a chymorth ar arweinyddiaeth neu faterion yn ymwneud â'r gweithlu fedrai arwain at fwy o gysondeb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?*

### *2.11 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus*

2.11.1 Dydy bywydau pobl ddim yn ddim yn dod i stop wrth ffiniau daearyddol neu ffiniau gwasanaethau. Rhaid i wasanaethau cyhoeddus gydweithio y tu ôl i'r llenni er mwyn sicrhau gwasanaethau di-dor i'r dinasyddion. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus swyddogaeth unigryw i ddod â'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach ynghyd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd. Mewn geiriau eraill, i wneud gwahaniaeth gweledol i'w dinasyddion. Rhaid i'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo barhau'n gyflym er mwyn helpu i gefnogi gwaith rhanbarthol.

2.11.2 Bydd diwygio llywodraeth leol, a'r gofyniad i Awdurdodau Lleol weithio'n gynyddol ar sail ranbarthol, â goblygiadau ehangach ar gyfer partneriaid gwasanaethau cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.11.3 Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol ddod ynghyd i arfer swyddogaethau ar sail ranbarthol. Bydd hyn yn golygu y bydd rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wrth ddod â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus allweddol ynghyd, ystyried sut i weithio gyda'r trefniadau rhanbarthol newydd. Hefyd

bydd angen ystyried a fyddai'n briodol trefnu eu hunain i adlewyrchu'r trefniadau rhanbarthol newydd.

2.11.4 Mae pwerau helaeth eisoes ar gael i Fyrddau gydweithio ar sail patrwm daearyddol mwy. Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn caniatáu i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus uno, ar sail patrwm daearyddol y Byrddau Iechyd Lleol. Gall fod yn briodol diwygio'r ddeddfwriaeth hon a chaniatáu mwy o hyblygrwydd wrth uno Byrddau (ac wrth iddynt wahanu lle bo angen) er mwyn iddynt fedru bodloni gwahanol batrymau daearyddol rhanbarthol.

*Cwestiwn Ymgynghori 17:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn medru cydweithio neu uno ar draws ffiniau Byrddau Iechyd Lleol. A ydych yn cytuno ynteu’n anghytuno? Pam?*

*Cwestiwn Ymgynghori 18:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael gwahanu yn ogystal ag uno. A ydych yn cytuno ynteu’n anghytuno? Pam?*

# 3 UNO GWIRFODDOL

3.1.1 Wrth ystyried anghenion pobl a chymunedau lleol yn awr ac yn y dyfodol, rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried o ddifrif sut gallant drefnu eu hunain orau i sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Er gwaethaf mwy o weithio rhanbarthol, hwyrach y bydd Awdurdodau Lleol yn dewis dod at ei gilydd a chreu un Awdurdod mwy er mwyn cyflawni'n well ar ran pobl leol.

3.1.2 I wneud hyn bydd gofyn i Awdurdodau Lleol ddatblygu cynnig cadarn ar gyfer newid strwythurol. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n nodi rhestr hir o feini prawf penodol y mae'n rhaid i'r cynnig eu bodloni; bydd y rhesymeg a'r amgylchiadau ar gyfer uno gwirfoddol yn wahanol ym mhob achos, a bydd raid i Awdurdodau Lleol gael yr hyblygrwydd i gyflwyno cynigion o dan amgylchiadau gwahanol. Ond bydd angen i'r rheini sydd wedi ymrwymo i'r broses uno fod â dealltwriaeth glir o'r cyfleoedd a'r manteision, yn y tymor byr a'r tymor hir. Felly, cred Llywodraeth Cymru ei bod hi'n rhesymol cael cyfres o ddisgwyliadau gofynnol y dylid eu bodloni wrth ystyried pa mor briodol yw uno gwirfoddol.

3.1.3 Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer uno, byddai angen roi sylw i gadernid parhaus y sefydliadau, darparu gwasanaethau a chanlyniadau'n effeithiol ar gyfer pobl leol, a'r sefyllfa ariannol sydd mewn golwg ar gyfer y dyfodol. Dylai cynigion sicrhau digon o fanteision i bobl a chymunedau er mwyn cyfiawnhau'r uno. Dylai'r achos dros newid gael ei ddatblygu ar y cyd, gan yr Awdurdodau Lleol, a'u rhanddeiliaid lleol. Yn yr un modd â'r prosbectws uno gwirfoddol blaenorol a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, bydd gofyniad i ymgynghori'n lleol ar unrhyw gynnig. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â phobl leol, staff (ac unrhyw gyrff cynrychiadol), a phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus eraill. Byddai angen i unrhyw gynnig terfynol i uno gael ei basio'n llwyddiannus gan Gyngor llawn yr holl awdurdodau sy'n uno.

3.1.4 Bydd angen i gynnig ar gyfer uno gwirfoddol gael ei ddatblygu mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru, ac eraill, i ddarparu cymorth priodol. Bydd trafod a chydweithredu yn hollbwysig i sicrhau amserlen ymarferol a sicrhau bod y cynnig yn addas i'r diben yn y tymor hwy.

3.1.5 Unwaith mae'r cynnig terfynol ar gyfer uno'n cael ei gyflwyno, byddai angen i Lywodraeth Cymru ei dderbyn yn ffurfiol. Yna byddai Llywodraeth Cymru'n gofyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad etholaethol o ardal yr awdurdod newydd sydd mewn golwg a chyflwyno rheoliadau i alluogi'r uno. Byddai angen i reoliadau o'r fath gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n bosibl y gallai mwy nag un cynnig uno gael ei gyflwyno ar unrhyw adeg, a gallai'r rheoliadau sydd eu hangen fod yn wahanol i adlewyrchu anghenion gwahanol y cyrff sy'n uno. Mae rheoliadau o'r fath yn debygol o roi sylw i:

- drosglwyddo staff, asedau a chyfrifoldebau
- manylion etholiadau
- sefydlu pwyllgorau pontio a'r Awdurdod Lleol cysgodol
- gweithredu unrhyw drefn trafodion statudol yn ôl yr angen

3.1.6 Gallai fod yn ddefnyddiol cyhoeddi canllawiau ar y materion hyn, ac i'r perwyl hwn mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cymryd pwerau i wneud canllawiau mewn perthynas ag uno gwirfoddol.

3.1.7 Bydd angen i Lywodraeth Cymru naill ai geisio pwerau newydd er mwyn rhoi effaith i uno gwirfoddol, neu ddiwygio’r ddeddfwriaeth gyfredol yn Neddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 (Deddf 2015) sy’n caniatáu ar gyfer uno gwirfoddol. Roedd y pwerau yn Neddf 2015 sy’n caniatáu uno yn gysylltiedig ag amserlen gaeth ar gyfer y rhaglen uno a oedd yn yr arfaeth ar y pryd. Ni ellir eu defnyddio bellach ar gyfer achos o uno gwirfoddol a fyddai’n dod i rym ar ôl Ebrill 2018, a dyna pam mae angen deddfwriaeth newydd neu ddiwygio deddfwriaeth gyfredol.

*Cwestiwn Ymgynghori 19:*
*Byddai Llywodraeth Cymru’n croesawu sylwadau ynghylch y disgwyliadau gofynnol wrth ystyried pa mor briodol yw achos o uno gwirfoddol.*

# 4 FFRAMWAITH AR GYFER ARWEINYDDIAETH LEOL

## *4.1 Disgwyliadau Cyffredin*

4.1.1 Wrth ystyried anghenion pobl a chymunedau lleol yn awr ac yn y dyfodol, rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried o ddifrif sut gallant drefnu eu hunain orau i sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Er gwaethaf mwy o weithio rhanbarthol, hwyrach y bydd Awdurdodau Lleol yn dewis dod at ei gilydd a chreu un Awdurdod mwy er mwyn cyflawni'n well ar ran pobl leol.

4.1.2 Y nodau a'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol sy'n llywio ein gwaith ni i gyd. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn darparu'r fframwaith sydd ei angen ar lywodraeth leol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol i bobl a chymunedau lleol. Rydym yn glir bod rhaid i'n 'gofyn' fod yn wahanol. Dylai Llywodraeth Cymru osod y fframwaith strategol eang a fydd yn sail i waith llywodraeth leol i sicrhau'r canlyniadau rydym yn ceisio'u cyflawni gyda'n gilydd. Mae hon yn berthynas wahanol; mae'n un sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth rhwng y naill a'r llall. Mae'n drafodaeth agored a pharhaus am broblemau cyffredin. Mae angen aeddfedrwydd gan y naill a'r llall.

4.1.3 Yn 'Symud Cymru Ymlaen'11 mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i newid y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, CLILC a llywodraeth leol. I'r perwyl hwn bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda llywodraeth leol, yn adnewyddu'r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol sy'n nodi'r egwyddorion y bydd Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn eu defnyddio i gydweithio ar ran dinasyddion Cymru. Rydym wedi ymrwymo o hyd i leihau unrhyw feichiau diangen ar y sector cyhoeddus a busnesau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu hyblygrwydd cyllido ar gyfer Awdurdodau Lleol ac mae'n gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i sicrhau'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer cyllido yn y dyfodol, ac mae hyn yn cynnwys edrych ar drosglwyddo rhagor o grantiau i'r Grant Cymorth Refeniw. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r gwasanaeth cyhoeddus, er enghraifft, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn ystyried yr amrywiaeth o baneli, cyrff a grwpiau sy'n cynnig cyngor ledled y maes busnes ac economi, gyda'r nod o symleiddio trefniadau.

4.1.4 Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu'r fframwaith y gall llywodraeth leol weithredu ynddo orau i ddiwallu anghenion unigolion a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol. Rhaid i'r fframwaith hwn fod yn hyblyg, gan gynnig gwahanol opsiynau fel y gall llywodraeth leol weithredu mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion lleol orau. Yn ei thro, rhaid i lywodraeth leol weithio gyda phobl a chymunedau lleol i lywio dyfodol a rennir.

4.1.5 Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir y canlyniadau hynny y mae'n disgwyl i lywodraeth leol eu cyflawni. Weithiau bydd hyn yn golygu cyflawni canlyniadau mewn ffordd gyson, er enghraifft, pennu safonau gofynnol. Dro arall, gallai hyn olygu creu cysondeb mewn trefniadau llywodraethu i sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw, fel y gall pobl leol ddeall sut a phryd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

4.1.6 Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynigion newydd hyn ar gyfer diwygio

[11] http://llyw.cymru/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf

llywodraeth leol, rydym wedi ceisio barn Arweinwyr, Aelodau Etholedig, Prif Weithredwyr, swyddogion llywodraeth leol a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Rydym wedi ymrwymo i berthynas barhaus lle rydym yn agored am yr heriau a wynebwn gyda'n gilydd a lle rydym yn cydweithio, fel un gwasanaeth cyhoeddus, i ymateb i'r heriau hynny. Bydd cydarwain yn gofyn am ymddiriedaeth, parodrwydd i gydweithio ac i gyfaddawdu, yn ogystal â gwerthfawrogiad gan bawb o'n rolau gwahanol wrth geisio gwella canlyniadau i bobl yng Nghymru.

4.1.7 Rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyn fydd ceisio lleihau gofynion adrodd ar berfformiad, gan gynnwys cynlluniau, adroddiadau blynyddol a strategaethau. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cynigion deddfwriaethol fydd yn cael eu cynnwys mewn Bil Llywodraeth Leol newydd. Ond byddwn ni hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn fwy cyffredinol ar draws Llywodraeth Cymru i ddileu unrhyw feichiau diangen a roddir ar lywodraeth leol. Byddwn yn parhau i ystyried y defnydd o grantiau penodol, gan geisio cynnig cymaint o hyblygrwydd ariannol â phosibl ar gyfer gwaith llywodraeth leol.

4.1.8 Rydym wedi ymrwymo o hyd i roi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol a'r Cynghorau Cymuned hynny sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol. Bydd hyn yn galluogi llywodraeth leol i wneud mwy, gan weithredu mewn modd mwy arloesol a hyblyg. Bydd Awdurdodau Lleol yn gallu defnyddio'r pŵer hwn i weithio gydag eraill i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau cost-effeithiol mewn ffyrdd newydd i ddiwallu anghenion cymunedau lleol. Gallai Cyngor fenthyg neu fuddsoddi arian; neu sefydlu cwmni neu gymdeithas gydweithredol i fasnachu a chymryd rhan mewn gweithgarwch masnachol. Nid yw'r defnydd o'r pŵer wedi'i gyfyngu i ardal ddaearyddol yr awdurdod neu er budd ei drigolion. Mae'n cynnig cyfle eang i Awdurdodau Lleol arloesi, a rhaid i ddinasyddion lleol fod yn rhan o'r gydfenter hon.

### *4.2 Arweinyddiaeth Ddosbarthedig*

4.2.1 Mae gan bawb rai cyfrifoldebau arwain. Wrth wynebu problem i'w datrys, y cwestiwn cyntaf y dylai unrhyw weithiwr cyflogedig llywodraeth leol ei ofyn yw "Pa gyfraniad alla **i** ei wneud i ddatrys y mater yma?" Yna bydd angen cyfraniadau gan eraill, yn cydweithio, i ddatrys y mater yn llawn. Mae arweinyddiaeth ddosbarthedig fel hyn yn hollol wahanol i ddull lle mae gweithwyr cyflogedig bob amser yn trosglwyddo problemau yn uwch ac yn uwch i fyny'r strwythurau rheoli hierarchaidd.

4.2.2 Bydd arweinyddiaeth effeithiol yn allweddol i alluogi a chyflawni'r newidiadau hyn. Nid yn unig y mae cyfrifoldeb corfforaethol am arweinyddiaeth. Mae disgwyliadau ar unigolion, Aelodau Etholedig a swyddogion hefyd, i ysgwyddo cyfrifoldeb dros arwain. Mae hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau y gallai Llywodraeth Cymru neu eraill eu paratoi. Ethos yw hwn; ymrwymiad i ddatblygu sefydliadau dysgu, lle mae anghenion pobl a chymunedau lleol wrth wraidd penderfyniadau ac mae ein dull gweithredu'n seiliedig ar berthynas gydgynhyrchiol. Rydym ni eisoes wedi amlinellu'r gwerthoedd rydym yn disgwyl i bob gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, eu hymgorffori drwy 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'.[12] Mae'r gwerthoedd hyn wedi'u gosod yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn mynegi enghreifftiau o'r

[12] https://academiwales.gov.wales/pages/one-welsh-public-service

ymddygiad y byddem yn disgwyl i arweinwyr ar bob lefel eu harddangos yn eu gwaith bob dydd.

4.2.3 I helpu Awdurdodau Lleol i adeiladu ar hyn byddwn yn ceisio sicrhau gofyniad i Arweinwyr fynd ati i bennu amcanion gydag Aelodau Cabinet. O ganlyniad i adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol bydd hyn yn cael ei ddiwygio i leiafswm o ddwywaith yn ystod cylch etholiadol, ond gall Arweinwyr ddewis gwneud hyn yn amlach. Fel y cynigiwyd yn flaenorol, byddwn yn gosod dyletswydd newydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo safonau da o ymddygiad gan eu haelodau ac i gydweithredu â Phwyllgorau Safonau wrth gyflawni eu swyddogaethau. Lle bo'n briodol, bydd Pwyllgorau Safonau yn clywed achosion o fethiant honedig aelodau i gyflawni dyletswyddau perfformio rhagnodedig, yn ogystal â thorri cod ymddygiad aelodau.

*Cwestiwn Ymgynghori 20:*
*Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ar unrhyw un o'r cynigion a nodwyd yn flaenorol yn y Bil Llywodraeth Leol drafft a'r papur ymgynghori cysylltiedig, gweler y cyfeiriad yn Atodiad Un.*

### *4.3 Perfformiad a Gwella*

4.3.1 Mae rhan o'n cynlluniau i roi'r fframwaith i lywodraeth leol arwain yn cynnwys ymrwymiad parhaus i newid trefniadau rheoli perfformiad. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("Mesur 2009") ar gyfer pob 'Awdurdod Gwella'.[13]

### Awdurdodau Tân ac Achub

4.3.2 Mae gan wasanaethau tân ac achub yng Nghymru hanes o gyflawni. Maent wedi lleihau nifer y tanau a nifer y marwolaethau ac anafiadau o achos tân dros 50% ers datganoli'r cyfrifoldeb iddynt yn 2004. Mae ganddynt hanes hir o weithio'n rhanbarthol hefyd, gan weithredu felly ers 1996. Yn hynny o beth, maent eisoes yn enghraifft o'r dull eang y mae'r Papur Gwyn hwn yn ei gynnig ar gyfer gwasanaethau Awdurdod Lleol eraill.

4.3.3 Fodd bynnag, nid yw trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub yn sicrhau digon o atebolrwydd, er enghraifft, nid yw arweinwyr Cyngor ac aelodau cabinet yn aelodau gan amlaf. Hefyd, nid yw swyddogaethau gweithredol a swyddogaethau craffu wedi'u gwahanu a chaiff cyllidebau eu gosod heb unrhyw her neu reolaeth allanol ffurfiol.

4.3.4 I unioni hyn ac i sicrhau bod gwasanaethau tân ac achub yn cael eu hintegreiddio'n briodol â gwasanaethau rhanbarthol eraill, cynigir bod Awdurdodau Tân ac Achub yn newid eu trefniadau llywodraethu fel bod eu haelodaeth yn debyg i aelodaeth Cyd-bwyllgorau Llywodraethu, a bod cyllidebau'n cael eu pennu'n gyfunol trwy gytundeb. Ni fyddai hyn yn newid rôl, nifer na ffiniau Awdurdodau Tân ac Achub, na'u bodolaeth fel sefydliadau ar wahân sydd â'r grym i gyflogi staff, gwario arian a chyflawni swyddogaethau ar eu liwt eu hunain.

4.3.5 Fel rhan o'r Bil newydd, cynigir na fydd Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn gymwys bellach i Awdurdodau Tân ac Achub o'r un dyddiad ag Awdurdodau Lleol. Ni fyddant trefniadau gwella a pherfformiad newydd sydd wedi'u

[13] Awdurdodau Gwella yw: Awdurdodau Lleol, y Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub

hamlinellu ar gyfer Awdurdodau Lleol yn berthnasol iddynt. Cynhelir ymgynghoriad llawn maes o law ar y trefniadau llywodraethu, cyllido a rheoli perfformiad newydd ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub.

### Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

4.3.6 Sefydlwyd rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru, sy'n cael ei chadeirio gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, ym mis Hydref 2015 ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr y Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, grwpiau buddiant a busnesau. Ei thasg yn wreiddiol oedd bwrw golwg ar Adroddiad Marsden ar yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru ac ystyried yr achos dros ddiwygio.

4.3.7 Roedd Adroddiad Marsden yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru leihau'r baich rheoleiddiol anghymesur ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd wedi'i llunio ar gyfer Awdurdodau Lleol mwy o faint a mwy cymhleth. Mae Tirweddau'r Dyfodol Cymru'n cefnogi'r farn hon ac yn argymell y dylid mynd ati ar unwaith i ddechrau dull cymesur o gynllunio ac adrodd ar berfformiad sy'n cyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac y gellir ei fabwysiadu yn lle neu i ategu gofynion adrodd statudol eraill.

4.3.8 Fel rhan o'r Bil newydd ni fydd Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn berthnasol mwyach i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o'r un dyddiad ag Awdurdodau Lleol. Ni fydd y drefn gwella a pherfformiad newydd sydd wedi'i hamlinellu ar gyfer Awdurdodau Lleol yn berthnasol iddynt. Bydd dull amgen yn cael ei ddatblygu sy'n gweddu i anghenion a maint Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ond sy'n gyson ar draws y tri ohonynt.

*Cwestiwn Ymgynghori 21:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer pob 'Awdurdod Gwella'. A ydych yn cytuno? Pam?*

### Awdurdodau Lleol

4.3.9 Yn dilyn adborth cadarnhaol, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig o hyd i newid y fframwaith perfformiad i un sy'n seiliedig ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cael ei lywio gan egwyddorion llywodraethu da. Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol sicrhau llywodraethu da (fel y nodir gan fframwaith llywodraethu da CIPFA)[14] ac wrth wneud hynny, bydd gofyn iddynt gymryd rhan mewn hunanasesiadau ac adolygiadau cymheiriaid. Llywodraeth leol, yn gweithio gyda'i phartneriaid a gyda her allanol adeiladol, sydd yn y sefyllfa orau i ddeall sut mae meithrin a sicrhau rhagoriaeth yn y sector, ar gyfer y sector. Mae'r darpariaethau yn y Bil Drafft yn caniatáu hyblygrwydd o ran sut mae Awdurdodau Lleol yn mynd ati i hunanasesu a chymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid. Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau mai mater lleol yw perfformiad a rhoi dewis i Awdurdodau Lleol o ran sut maent yn cyflawni gwelliannau.

4.3.10 Rydym yn disgwyl i Awdurdodau Lleol ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros eu taith at welliant o hyd. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu gofyniad ar Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol a Phwyllgorau Archwilio i ysgwyddo mwy o rôl wrth herio perfformiad eu hardal Awdurdod Lleol, gan sicrhau bod Aelodau Etholedig yn arwain y gwaith o ysgogi gwelliant.

[14] http://www.cipfa.org/policy-and-guidance/standards/international-framework-good-governance-in-the-public-sector

4.3.11 Mae gan gyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio gyfraniad i'w wneud hefyd o ran galluogi llywodraeth leol i gyflawni mwy ar ran pobl leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i ofyn i'r cyrff hyn weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol a hefyd i weithio'n agosach gydag Awdurdodau er mwyn cefnogi gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion.

4.3.12 Fel y nodwyd yn gynharach, bydd Llywodraeth Cymru'n cadw pŵer i ymyrryd, a'r gallu i gomisiynu adolygiadau annibynnol o lywodraethu a gweithredu ar ganlyniadau'r adolygiadau hynny, os oes pryderon. Mae hyn yn ychwanegol at drefniadau ymyrryd o dan feysydd gwasanaeth penodol.

# 5 ARWAIN ARDALOEDD LLEOL

## *5.1 Gweithio mewn Partneriaeth â Phobl*

5.1.1 Mae gan lywodraeth leol rôl allweddol o ran helpu cymunedau i ddiffinio'r dyfodol maent yn ei chwennych. Mae mwy i hyn na sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd pan mae yna argyfwng; mae'n ymwneud â sut maent yn gweithio gyda'i gilydd gyda'u cymunedau i atal argyfwng. Rhaid i gyd-gynhyrchu gyda dinasyddion fod wrth galon hyn. Mae rolau dilys ar gyfer cymunedau lleol (boed trwy Gyngor Cymuned a/neu grwpiau cymunedol), Awdurdodau Lleol, cyrff rhanbarthol, a Llywodraethau cenedlaethol wrth 'lunio lleoedd'.

5.1.2 Wrth lunio dyfodol cymunedau yng Nghymru mae angen llinyn aur sy'n cysylltu dyheadau cymunedau ag amcanion cenedlaethol. Mae'r Nodau Llesiant yn gosod y fframwaith hwnnw. I wireddu'r llinyn aur hwn mae angen cydweithio agos rhwng Cynghorau Cymuned, Awdurdodau Lleol, cyrff cyhoeddus eraill a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac unrhyw drefniadau rhanbarthol. Yr her fydd sicrhau bod pawb yn symud i'r un cyfeiriad, heb ddyblygu diangen. Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl a chymunedau; sicrhau bod sefydliadau'n gwneud y gweithgaredd sy'n cael yr effaith fwyaf o ystyried eu sgiliau, eu harbenigedd, a'u cylch gwaith.

## *5.2 Rôl Cynghorwyr*

5.2.1 Mae ein cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn rhoi rôl ganolog i Gynghorwyr yn y broses, yn arwain eu cymunedau lleol. Mae Cynghorwyr lleol, boed yn eistedd ar Gynghorau Cymuned neu Awdurdodau Lleol, yn hollbwysig o ran siarad o blaid eu cymunedau ac unigolion. Cânt eu hethol i gynrychioli eu cymunedau, gan roi llais i'w huchelgeisiau a'u dyheadau, ond hefyd i ddal i gyfrif y rheini sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch gwasanaethau a sut y cânt eu darparu, gan sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion pobl a chymunedau lleol.

5.2.2 Rhaid i gynghorwyr gynrychioli eu cymunedau, ond dylent hefyd fod yn gynrychiadol o'u cymunedau. Ein nod yw hybu mwy o amrywiaeth ymhlith y rheini sy'n sefyll mewn etholiad. I gryfhau'r cysylltiad hwn rydym yn cymryd camau i gynyddu amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n sefyll mewn etholiadau ac yn annog mwy o gyfranogiad mewn democratiaeth leol.

5.2.3 Rydym ni wedi bod yn gweithio dros y tair blynedd diwethaf i greu cronfa amrywiol o ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau lleol yn ddiweddarach eleni. Ers cyhoeddi adroddiad McAllister "Ar ôl Pwyso a Mesur"15 yn 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain yr ymgyrch Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Yn ogystal ag annog pleidiau gwleidyddol i ymrwymo i ddethol ymgeiswyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn seddi y gellir eu cipio, mae'r ymgyrch wedi cynnwys recriwtio tua 50 o bobl i gael eu mentora, ac maent wedi bod yn cysgodi Cynghorwyr cyfredol.

5.2.4 Byddwn yn defnyddio tystiolaeth o arolwg ymadael CLILC ar Gynghorwyr sy'n rhoi'r gorau i'w gwaith eleni, yr arolwg ymgeiswyr o bawb sy'n sefyll mewn etholiadau eleni, a'r gwerthusiad o'n rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth i archwilio sut mae proffil Cynghorwyr yn newid yn 2017 ac ystyried beth yn rhagor sydd angen ei wneud.

[15] http://llyw.cymru/topics/localgovernment/publications/expert-group-report/?lang=cy

5.2.5 Rydym yn cynnig cadw’r darpariaethau o’r Bil Drafft a fyddai’n ei gwneud hi’n ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi strategaethau yn egluro sut gall y cyhoedd ddeall sut mae penderfyniadau’n cael eu gwneud a sut gallant gymryd rhan yn y broses. Yn ogystal, rydym yn bwriadu gwneud darlledu cyfarfodydd Cynghorau – sydd eisoes yn arfer cyffredin – yn ofyniad statudol a bydd gofyn i Gynghorau ganiatáu i Aelodau fynychu cyfarfodydd y Cyngor o bell hefyd os oes anawsterau domestig, busnes neu deithio yn eu hatal rhag cyrraedd lleoliad y cyfarfod.

5.2.6 Bydd dyletswyddau newydd ar gyfer Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i sicrhau ymddygiad o safon uchel ymhlith eu haelodau yn ychwanegu at becyn sydd â’r nod o wneud bywyd fel Cynghorydd yn fwy deniadol ac i annog mwy o amrywiaeth o bobl i ystyried cymryd rhan yn y dyfodol.

5.2.7 Cynghorwyr yw llais eu cymunedau. Roedd y Papur Gwyn a’r Bil Drafft blaenorol yn gofyn barn gyda’r nod o ddarparu eglurder ynghylch yr hyn gall pobl leol ei ddisgwyl gan Gynghorwyr Awdurdodau Lleol. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cymorthfeydd rheolaidd, ymateb i ohebiaeth o fewn amserlenni penodol, cyhoeddi adroddiadau ar eu gweithgareddau. Yng ngoleuni trasiedi Jo Cox a sylwadau eraill, rydym yn bwriadu addasu’r angen i gynnal cymorthfeydd, a hynny trwy gyflwyno darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i Gynghorwyr roi cyfleoedd i’w hetholwyr gysylltu â nhw. Bydd rhestr o ddewisiadau y gall Cynghorwyr ddewis o’u plith i weddu orau i’w cymunedau lleol.

5.2.8 Roedd y Bil Drafft yn cynnwys rhai cynigion sy’n rhy gaeth yn ein barn ni erbyn hyn. Roedd gofyniad i Arweinwyr gynnal cyfarfodydd cyhoeddus blynyddol. Roedd gofyniad ar bob Cynghorydd i baratoi adroddiadau blynyddol. Yn hytrach, rydym yn bwriadu cyflwyno cynigion sy’n cynnig dewislen i Arweinwyr a Chynghorwyr o ran sut gallant wella’r ffordd y maent yn rhyngweithio â’r cyhoedd, os oes angen. Y pwynt pwysig fydd eu bod yn ymgysylltu’n gyson – ac yn sicrhau eu bod ar gael i’r cyhoedd – ac yn darparu gwybodaeth reolaidd ynglŷn â sut maent wedi gwneud hyn.

*Cwestiwn Ymgynghori 22:*
*Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y dylai bod disgwyliadau gofynnol ar Gynghorwyr i ryngweithio â’u hetholwyr lleol. A ydych yn cytuno ynteu’n anghytuno? Os felly, beth ddylai’r disgwyliadau gofynnol hyn fod?*

### *5.3 Gwrando ar Ardaloedd Lleol*

5.3.1 Dylai pobl a chymunedau lleol gael y cyfle hefyd i fynegi eu barn drwy ddeialog agored gyda’u Hawdurdod Lleol. Roedd y Papur Gwyn a’r Bil Drafft blaenorol yn nodi cynigion yn gofyn i Awdurdodau Lleol amlinellu sut maent yn bwriadu cefnogi ac annog eu cymunedau lleol i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, gan amlinellu sut byddai pobl leol yn gallu cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a pholisïau. Credwn fod hyn yn parhau i fod yn hollbwysig ac rydym yn bwriadu i hyn gynnwys sut gall pobl leol fod yn rhan o’r broses ddemocrataidd ranbarthol yn ogystal â’r un leol.

5.3.2 Roedd y Papur Gwyn a’r Bil Drafft blaenorol yn cynnig gofyniad i sefydlu ‘pwyllgorau ardal cymuned’ ar gyfer pob Awdurdod Lleol fel mecanwaith ar gyfer casglu barn ar flaenoriaethau ac amcanion lleol er mwyn eu bwydo i mewn i’r broses benderfynu. Roedd gwrthwynebiad cryf yn yr ymgynghoriad blaenorol i wneud trefniant o’r fath yn ofynnol, yn enwedig mewn perthynas â’r

posibilrwydd y byddai'r pwyllgorau hyn yn ysgwyddo swyddogaethau. Rhan o'r sail resymegol ar gyfer 'pwyllgorau ardal cymuned' oedd gwrthbwyso pryderon y byddai mwy o fwlch rhwng Awdurdod Lleol unedig, mwy o faint a chymunedau lleol, felly nid oes angen darpariaeth o'r fath mwyach. Fodd bynnag, mae Adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2008 eisoes yn caniatáu i Awdurdodau Lleol sefydlu pwyllgorau ardal; mae rhai Awdurdodau Lleol yn eu defnyddio ac maent wedi awgrymu y gellid diwygio'r ddeddfwriaeth fel y gallai Awdurdodau Lleol ddewis eu sefydlu neu ddefnyddio pwyllgorau ardal cyfredol mewn ffyrdd mwy hyblyg.

*Cwestiwn Ymgynghori 23:*
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol gwneud mân newidiadau i ddeddfwriaeth gyfredol ar bwyllgorau ardal er mwyn cynyddu eu hyblygrwydd. Beth ddylai'r newidiadau hyn fod yn eich barn chi?*

### *5.4 Cydbwyso Arweinyddiaeth Leol a Rhanbarthol*

5.4.1 Bydd gan y gofyniad i Awdurdodau Lleol weithio ar sail ranbarthol oblygiadau ar gyfer y ffordd mae Cynghorwyr, yr Awdurdod Lleol a gweithwyr cyflogedig yn gweithredu. Bydd angen i bob un ohonynt fod yn glir ynghylch sut maent yn cydbwyso'r cyfrifoldebau sydd ganddynt i'w hardal leol, gyda'u cyfrifoldebau i'r rhanbarth mwy.

5.4.2 Mae disgwyl i gynghorwyr a swyddogion weithredu'n ddidwyll, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol er budd gorau eu cymunedau ac i weithredu er budd y cyhoedd. Bydd y trefniadau rhanbarthol arfaethedig yn gofyn iddynt weithredu er budd eu Hawdurdod Lleol ac unrhyw drefniant rhanbarthol. Bydd yna adegau pan fydd penderfyniad a wneir mewn un lleoliad yn arwain at oblygiadau i'r llall. Rhaid inni fod yn glir ynghylch sut mae'r cyfrifoldebau hyn yn rhyngweithio gyda'i gilydd.

5.4.3 Rydym yn bwriadu adolygu'r codau ymddygiad ar gyfer Aelodau16 a gweithwyr cyflogedig17 i sicrhau eu bod yn cefnogi prosesau penderfynu effeithiol yn lleol ac yn rhanbarthol.

*Cwestiwn Ymgynghori 24:*
*Bydd y gofyniad i Awdurdodau Lleol weithio'n rhanbarthol yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gynghorwyr, yr Awdurdod Lleol a gweithwyr cyflogedig gydbwyso'r cyfrifoldebau sydd ganddynt i'w hardal leol, gyda'u cyfrifoldebau i'r rhanbarth mwy. Sut gellid cyflawni hyn orau?*

### *5.5 Swyddogaethau Llywodraeth Leol*

5.5.1 Yn y Papur Gwyn a'r Bil Drafft blaenorol, fe wnaethom gynnig i ddirymu Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'i disodli gyda chynigion a fyddai'n caniatáu i Awdurdodau Lleol wneud eu penderfyniadau eu hunain ar ddyrannu swyddogaethau, yn amodol ar ganllawiau statudol a phŵer wrth gefn Gweinidogion Cymru i ymyrryd. Wrth gyflwyno'r model rhanbarthol newydd, mae'n bosibl y bydd angen i Awdurdodau Lleol ddirprwyo swyddogaethau i'r trefniant rhanbarthol. Gallai cymhlethdodau sylweddol godi os caiff y

[16] Caiff ymddygiad aelodau ei reoli gan gyfres o 10 egwyddor ymddygiad cyffredinol (yn seiliedig ar 7 egwyddor Nolan) a ragnodir yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2011 a chod ymddygiad a ragnodir yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008.
[17] Mae'r cod ymddygiad ar gyfer "cyflogeion cymwys" wedi'i ragnodi yng Ngorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001

swyddogaethau hyn eu dirprwyo mewn ffyrdd gwahanol. Byddai hefyd yn effeithio ar gynrychiolaeth yr awdurdodau cyfranogol pe bai swyddogaethau yn gyfrifoldeb ar y weithrediaeth mewn rhai, ond y Cyngor llawn mewn eraill.

5.5.2 Yn ystod y cam cychwynnol o sefydlu trefniadau rhanbarthol, y peth gorau fyddai i Awdurdodau Lleol unigol gael darpariaethau tebyg ar gyfer cyfrifoldeb am swyddogaethau yn y cyngor. Yn y tymor hwy, gellid bwrw golwg arall ar hyn a gweld a fyddai newid tebyg i'r hyn a ystyriwyd yn flaenorol yn ymarferol ac yn fwy ffafriol. Felly nid yw Llywodraeth Cymru'n cynnig newid y drefn gyfredol ar hyn o bryd.

5.5.3 Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgynghori â llywodraeth leol ar ddiwygiadau sydd eu hangen i'r rheoliadau cyfredol er mwyn cynnwys cyfrifoldebau newydd sydd wedi'u rhoi ar Awdurdodau Lleol yn y blynyddoedd diwethaf.

5.5.4 Roedd Deddf Lleoliaeth 2011 yn galluogi awdurdodau Lloegr i ddychwelyd i'r system bwyllgor. Dim ond llond llaw sydd wedi gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu y dylai Cynghorau yng Nghymru gael cyfle i ddewis model anweithredol os dymunant. Byddai unrhyw newid o system gabinet yn gofyn am reolau gwahanol ar gyfer penodi aelodau i unrhyw gyd-drefniant llywodraethu rhanbarthol. Byddai'n rhaid iddynt sicrhau na fyddai'n eu rhwystro rhag cymryd rhan yn effeithiol mewn trefniadau rhanbarthol.

*Cwestiwn Ymgynghori 25:*
*Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu rhoi cyfle i Awdurdodau Lleol ddychwelyd i fath o system bwyllgor os mai hynny sy'n diwallu amgylchiadau lleol orau. Sut byddai'r dewis hwn yn gweithio orau yng nghyd-destun y cynigion ar gyfer trefniadau rhanbarthol newydd?*

## ***5.6 Arweinyddiaeth gan Swyddogion***

5.6.1 Bydd y newid i fodel rhanbarthol yn cymryd amser. Bydd arwain y gweithlu yn ystod y cyfnod hwn yn gofyn am weledigaeth strategol ar bob lefel o'r sefydliad. Mae tystiolaeth wedi dangos nad yw arweinwyr sydd heb ymrwymo'n llawn i broses yn llwyddo i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i newid.

5.6.2 Mae dwyn timau gwahanol ynghyd i gynllunio, comisiynu a darparu un gwasanaeth rhanbarthol yn cyflwyno heriau uniongyrchol ond manteision mwy hirdymor. Bydd angen i arweinwyr ystyried sut gallant, er enghraifft, gydbwyso telerau ac amodau a fydd yn diwallu anghenion y gweithlu a'r sefydliadau.

5.6.3 Bydd gan drefniadau cydweithio oblygiadau ar gyfer pob swyddog statudol. Mae nifer o swyddi statudol wedi'u creu, yn cynnwys:

- Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig
- Prif Swyddog Cyllid
- Swyddog Monitro
- Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cyfarwyddwr Addysg
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant

5.6.4 Y ffordd orau o hwyluso cyflwyno gwasanaeth rhanbarthol yw pe bai'r cyfrifoldebau statudol dros y gwasanaeth rhanbarthol hwnnw yn cael eu gosod

ar un unigolyn, er enghraifft, byddai cyfrifoldeb dros addysg yn cael ei ddyrannu i gyfarwyddwr addysg rhanbarthol. Mater i'r Awdurdodau Lleol a rheolwyr rhanbarthol ei drafod fydd y strwythur o dan y rheolwyr rhanbarthol. Rhagwelir y bydd y strwythurau trefniadol o dan y tîm rheoli rhanbarthol yn addasu dros amser. Byddwn yn edrych ar y ddeddfwriaeth gyfredol mewn perthynas â swyddogion statudol i sicrhau ei bod yn cynnwys darpariaethau priodol fel y gellir, dros amser, barhau i ddarparu eglurder ynghylch sut byddai'r model rhanbarthol yn gweithio o ran cyfrifoldebau swyddogion statudol.

*Cwestiwn Ymgynghori 26:*

*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai fod yn briodol i swyddi Uwch-swyddogion statudol perthnasol gael eu dynodi ar lefel ranbarthol yn unig os yw'r swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n rhanbarthol. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi? Pam? Os felly, sut gellid cyflawni hyn orau?*

# 6 CYNGHORAU CYMUNED

6.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu gweledigaeth a rennir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru at y dyfodol. Dylai pob Cyngor Cymuned fod yn ystyried sut gallant weithio fwyfwy gyda phartneriaid eraill a dinasyddion lleol i gyfrannu at lesiant eu hardal, waeth a oes dyletswydd gyfreithiol arnynt i wneud hynny ai peidio.

6.1.2 Mae Cynghorau Cymuned yn rhan annatod o lywodraeth leol. Nhw'n aml sydd agosaf at bobl a chymunedau lleol, ac felly maent mewn sefyllfa unigryw i weld, a darparu, y gwasanaethau hynny sy'n gallu cael effaith sylweddol ar lesiant unigolyn. Lle mae Cynghorau Cymuned yn bodoli mewn ardal, bydd Awdurdodau Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dibynnu arnynt i fod yn llais cymunedau. Yr un fath â Chynghorwyr Awdurdod Lleol, rhaid i Gynghorwyr Cymuned gynrychioli eu cymunedau a bod yn gynrychiadol ohonynt. Dylent fynd ati i ymgysylltu â'u pobl a busnesau lleol i helpu i nodi uchelgeisiau ac anghenion cymunedau lleol, ond hefyd i ddeall cryfderau ac asedau eu cymunedau

6.1.3 Mae'r trefniadau cyfredol yn amrywio'n aruthrol, nid yn unig o ran cwmpas, ond o ran cyfrifoldebau, cyllidebau ac uchelgais hefyd. Felly, mae'n bwysig ein bod ni'n manteisio ar y cyfle i ystyried beth allem ei ddysgu gan Gynghorau Cymuned sy'n perfformio'n rhagorol ac ystyried sut y gallem helpu pob Cyngor Cymuned i gyrraedd y safon hon. Mae hyn yn cynnwys ystyried cymorth y gallai fod ei angen ar Gynghorau Cymuned, ond hefyd yr hyblygrwydd a fyddai'n eu helpu i wneud mwy o gynnydd mewn perthynas â'u huchelgeisiau.

6.1.4 Mae angen inni gychwyn trafodaeth onest ynghylch sut beth allai dyfodol Cynghorau Cymuned fod, ac ystyried y fformat trefniadol cywir i gefnogi cymunedau lleol. I gyfrannu at y drafodaeth bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu adolygiad cynhwysfawr o'r sector Cyngor Cymuned. Tan y byddwn wedi cwblhau'r gwaith hwnnw nid ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â diwygio strwythurol neu gomisiynu Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiadau o drefniadau Cynghorau Cymuned ar hyn o bryd.

6.1.5 Er bod angen inni edrych ar ddyfodol Cynghorau Cymuned yn y tymor hwy, ni all y sector aros yn ei unfan. Mae pethau y gellir eu gwneud yn awr i gryfhau rôl Cynghorau Cymuned a gwella sut maent yn cael eu gweithredu a'u llywodraethu, fel y gallant fynd ati i ddarparu gwasanaethau ac asedau i gymunedau lleol lle maent yn dewis gwneud hynny.

6.1.6 Rydym wedi llunio 'agenda weithredu' i helpu i feithrin cadernid yn y sector a'i adnewyddu yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae llawer o'r rhain yn gamau gweithredu y gallwn eu cymryd gyda'n gilydd gan ddefnyddio pwerau sy'n bodoli eisoes.

- Paratoi pecyn cymorth i helpu Cynghorau Cymuned i weithio drwy'r hyn sy'n ofynnol wrth ysgwyddo gwasanaethau ac asedau newydd, gan adeiladu ar brofiadau o'r elfennau allweddol.
- Adfywio cysylltiadau rhwng Cynghorau Cymuned ac Awdurdodau Lleol a darparu llwyfan i rannu'r enghreifftiau da ledled Cymru, gan ddwyn ynghyd garfan newydd o Gynghorwyr Sir a Chymuned ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf mewn cynhadledd sy'n canolbwyntio ar gryfhau'r cysylltiadau allweddol hyn.

- Hwyluso'r broses o greu clystyrau o Gynghorau Cymuned llai, drwy ddarparu rhywfaint o gyllid i gynorthwyo gyda'r gwaith cychwynnol o sefydlu cyd-drefniadau.
- Comisiynu Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i lunio canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol i sicrhau cysondeb o ran sut caiff adolygiadau cymunedol eu cynnal.
- Helpu Cynghorau Cymuned i godi ymwybyddiaeth o etholiadau Cynghorau Cymuned ac annog pobl i gymryd rhan ynddynt, ac i gynyddu amrywiaeth.

6.1.7 Byddai rhai o'r camau y gallwn eu cymryd yn gofyn inni ddeddfu, ac rydym yn bwriadu defnyddio'r cyfle hwn i wneud hynny.

- Gwneud y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar gael i Gynghorau uchelgeisiol ac arloesol sydd eisiau rhagor o ryddid i wasanaethu eu cymunedau. Mae'r cynnig rydym wedi ymgynghori arno'n flaenorol yn parhau'r un fath yn y bôn, gyda rhai newidiadau wedi'u cynllunio o ran sut y cyfeirir at Gynghorau sy'n bodloni'r gofynion ac yn pasio penderfyniad: ac am faint mae Cynghorau'n parhau i fod â'r statws ar ôl pasio penderfyniad.
- Gynt roeddem yn cynnig rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ystyried a ddylai hyfforddiant penodol fod yn orfodol i aelodau Cynghorau Cymuned. Credwn o hyd y byddai'n fuddiol i bob Cyngor Cymuned ystyried a oes ganddo'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i allu gweithredu'n effeithiol. Felly rydym yn bwriadu rhoi rhwymedigaeth ar Gynghorau Cymuned i ystyried eu hanghenion hyfforddi a chynllunio, a chyhoeddi ac adolygu eu cynllun yn rheolaidd. Gellid bodloni'r ddyletswydd hon mewn ffordd gymesur â maint a chyfrifoldebau'r Cyngor.
- Sicrhau bod dinasyddion yn derbyn gwybodaeth a bod ganddynt yr hawl i gyflwyno sylwadau ar unrhyw fusnes a wneir yng nghyfarfodydd y Cyngor, gan ddysgu o enghreifftiau lle mae hyn yn cael ei wneud yn dda. Mae hyn yn rhan o ethos cydgynhyrchu.

*Cwestiwn Ymgynghori 27:*

*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod pethau y gellir eu gwneud yn awr i helpu i feithrin cadernid ac adnewyddiad yn y sector yn y tymor byr i'r tymor canolig. Byddai'n croesawu sylwadau ar y rhestr o gamau gweithredu ym mharagraff 6.1.6 y gellid eu cymryd yn y tymor byr i helpu'r sector fod yn fwy effeithiol/cadarn, a barn ar unrhyw gamau gweithredu eraill y gellid eu cymryd.*

# 7 ETHOLIADAU A PHLEIDLEISIO

7.1.1 Mae'r Papur Gwyn hwn yn cael ei gyhoeddi wrthi i Fil Cymru ddod i ddiwedd ei daith drwy'r Senedd. Felly mae llawer o'r cynigion rydym yn gofyn am farn arnynt yn y bennod hon yn amodol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb yn y meysydd hyn. Felly rydym yn gofyn am safbwyntiau cychwynnol i helpu i lywio syniadau ynghylch diwygio trefniadau cofrestru etholiadol a phleidleisio. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried ar wahân y posibilrwydd o ddiwygio ei etholiadau. Bydd ymgynghoriad manylach yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni ar fanylion y diwygiadau, yn amodol ar basio Bil Cymru.

7.1.2 Dyma'r cynigion y mae Llywodraeth Cymru'n debygol o'u hystyried: adolygiad o weithdrefnau pleidleisio drwy'r post, y defnydd o etholiadau lle mae pawb yn pleidleisio drwy'r post, pleidleisio electronig, cyfrif pleidleisiau'n electronig, pleidleisio mewn mannau heblaw gorsafoedd pleidleisio, a chynigion i gynnal etholiadau ar ddiwrnodau gwahanol. Ystyrir hefyd a fyddai swyddogion canlyniadau/swyddogion cofrestru etholiadol lleol yn cael treialu'r diwygiadau hyn mewn ffyrdd gwahanol er mwyn diwallu anghenion cymunedau a lleoliadau gwahanol yn well. Bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i ddileu'r hawl i ffioedd personol ar gyfer swyddogion canlyniadau.

7.1.3 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu edrych ar sut y gellid datblygu un gofrestr electronig i Gymru. Byddai hyn yn cynnwys edrych ar faterion fel; rhannu data, cofrestru etholwyr yn awtomatig, a mwy o fynediad at wybodaeth ar y gofrestr i staff Awdurdodau Lleol. Elfen bwysig yw y bydd gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn cael ei ystyried. Dylid nodi hefyd fod yr etholfraint ar gyfer etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yr un fath â'r etholfraint ar gyfer llywodraeth leol. Ar sail darpariaethau Bil Cymru, byddai'r Cynulliad yn gallu penderfynu a fyddai'r trefniant hwnnw'n parhau yn y dyfodol.

7.1.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i symud at dymor pum mlynedd ar gyfer llywodraeth leol. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, byddem angen mwy o dryloywder ar gyfer y rhai sy'n sefyll mewn etholiadau. Rydym yn ystyried cynnig i'w gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan yn glir a oeddent neu a ydynt yn aelodau o blaid wleidyddol gofrestredig, ac a ydynt wedi cael eu dewis yn ffurfiol i sefyll ar ran y blaid honno ai peidio. Byddai gofyn i bob ymgeisydd hefyd gyhoeddi ei ddatganiadau yn ystod yr etholiad ar wefan ganolog fel bod pleidleiswyr yn gallu cael at wybodaeth am faniffestos pob ymgeisydd yn hawdd. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu bwrw ymlaen â chynigion blaenorol i atal Aelodau Cynulliad rhag gwasanaethu fel Cynghorwyr ar yr un pryd.

7.1.5 Mae gan bob Awdurdod Lleol ei fandad democrataidd ei hun ac mae'n cynnwys Cynghorwyr sydd wedi cael eu hethol yn uniongyrchol i gynrychioli pobl leol. Mae'n hollbwysig bod y drefn ar gyfer ethol Cynghorwyr lleol yn ennyn parch a hyder pobl leol. Felly rydym yn edrych ar y diwygiadau canlynol a fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i lywodraeth leol roi trefniadau etholiadol lleol ar waith.

7.1.6 Ar hyn o bryd mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru'n defnyddio'r system 'Y Cyntaf i'r Felin' [18] o bleidleisio. Mae'r system wedi'i defnyddio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ers canrif a mwy. O dan y system, yr ymgeiswyr sy'n cael y nifer mwyaf o bleidleisiau sy'n ennill seddi. Er enghraifft, caiff ardal ei rhannu'n nifer o wardiau etholiadol ac mae gan bob ward nifer penodol o Gynghorwyr, sy'n amrywio o un i hyd at bump. Mewn etholiad, mae pleidleiswyr yn cael yr un nifer o bleidleisiau ag sydd o Gynghorwyr (er nad oes rhaid i'r pleidleisiwr ddefnyddio pob pleidlais). Caiff nifer y pleidleisiau ar gyfer pob ymgeisydd eu cyfrif. Os mai un Cynghorydd sydd gan ward, yna mae'r ymgeisydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau yn y ward honno'n cael ei ethol; os oes dau Gynghorydd gan y ward, caiff y ddau ymgeisydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau yn y ward honno eu hethol, ac yn y blaen hyd at bum ymgeisydd.

7.1.7 Mae cefnogwyr y system 'Y Cyntaf i'r Felin' o'r farn bod y gweithdrefnau pleidleisio a chyfrif yn syml a bod perthynas eglur rhwng safle'r ymgeisydd ar ôl cyfrif y pleidleisiau ac a yw'n cael ei ethol ai peidio. Mae gwrthwynebwyr yn honni bod y system y rhoi canlyniadau anghymesur yn aml (h.y. mae'r system yn ffafrio'r blaid gryfaf yn lleol ac felly nid yw'n adlewyrchu dewisiadau pleidleiswyr ar draws yr ardal). Mae beirniaid hefyd o'r farn fod y system hon yn annog pleidleisio tactegol a bod pleidleisiau'n cael eu "gwastraffu" h.y. yn cael eu rhoi i ymgeiswyr sydd â phrin unrhyw obaith neu ddim gobaith o ennill, neu'n cael eu rhoi i'r ymgeisydd buddugol uwchlaw'r lefel sydd ei hangen arno i ennill.

7.1.8 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, yn amodol ar ddatganoli pwerau yn y maes hwn i Gymru, y dylai awdurdodau lleol fel haen o lywodraeth, yn yr un modd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, gael cyfle i ystyried pa mor briodol yw eu trefniadau pleidleisio nhw'u hunain.

7.1.9 Mae sawl system arall ar waith mewn mannau eraill. Er enghraifft, caiff etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Llundain eu cynnal o dan y system 'Aelod Ychwanegol'[19]; caiff etholiadau ym Mhrydain i Senedd Ewrop eu cynnal o dan y system 'Rhestr Plaid'[20]. O dan y systemau 'Aelod Ychwanegol' a 'Rhestr Plaid' rhaid i bleidleiswyr ddewis o blith rhestr o ymgeiswyr sy'n cael eu cyflwyno dan blaid wleidyddol gofrestredig. Er bod ymgeiswyr Annibynnol ac ymgeiswyr heb gysylltiad â phlaid benodol yn gallu sefyll, maent yn llai tebygol o lawer o gael eu hethol.

7.1.10 Mae Cynulliad Deddfwriaethol Gogledd Iwerddon a Chynghorau lleol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu hethol drwy ddefnyddio'r system 'Un Bleidlais Drosglwyddadwy.[21] Yn y system 'Un Bleidlais Drosglwyddadwy'

[18] System Y Cyntaf i'r Felin: Mae pleidleiswyr yn rhoi X wrth enw'r ymgeisydd o'u dewis a'r ymgeisydd â'r mwyaf o bleidleisiau yn yr etholaeth sy'n ennill.

[19] System Aelod Ychwanegol: System bleidleisio hybrid lle gofynnir i bleidleiswyr bleidleisio mewn dwy ffordd. Mae'n cyfuno elfennau o Y Cyntaf i'r Felin lle mae pleidleiswyr yn rhoi X wrth enw'r ymgeisydd y maent am iddo'u cynrychioli yn eu hetholaeth, a chynrychiolaeth gyfrannol, lle mae pleidleiswyr yn rhoi X wrth ymyl plaid sydd â rhestr o ymgeiswyr i gynrychioli etholaeth ranbarthol fwy.

[20] System Rhestr Plaid: Mae pleidiau'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr, caiff seddi eu dyfarnu ar sail cyfran eu plaid o'r bleidlais. Defnyddir fformiwla electronig neu gwota i wneud hyn fel rheol.

[21] System Un Bleidlais Drosglwyddadwy: Mae pleidleiswyr yn rancio ymgeiswyr yn nhrefn ffafriaeth. I gael eu hethol, rhaid i ymgeiswyr gyrraedd cyfran benodol o'r pleidleisiau (a bennir gan nifer y seddi i'w llenwi). Mae pob pleidleisiwr yn cael un bleidlais, sy'n gallu trosgwlyddo o'i ddewis cyntaf i'w ail ddewis. Os nad oes gan yr ymgeisydd dewis cyntaf fawr o obaith o gael ei ethol neu os oes ganddo

gofynnir i bleidleiswyr roi'r ymgeiswyr mewn trefn ffafriaeth. I gael ei ethol, rhaid i ymgeisydd sicrhau hyn a hyn o "gwota", neu gyfran o'r pleidleisiau, sy'n cael ei bennu gan gyfrifiad sy'n seiliedig ar nifer y bobl sy'n pleidleisio a nifer y seddi i'w llenwi. Trwy rancio ei bleidlais, os nad oes gan yr ymgeisydd sy'n cael ei ffafrio gan y pleidleisiwr unrhyw obaith o ennill neu nad oes ganddo ddigon o bleidleisiau i gyrraedd a mynd tu hwnt i'r cwota, gellir trosglwyddo ei bleidlais o ddewis cyntaf y pleidleisiwr i'w ail ddewis.

7.1.11 Mae'r system 'Un Bleidlais Drosglwyddadwy' yn arwain at ganlyniadau etholiad sy'n adlewyrchu ar y cyfan gyfrannau'r pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer y gwahanol bleidiau gwleidyddol, grwpiau ac ymgeiswyr annibynnol ar draws yr ardal gyfan. Nid yw'r system hon yn cyflwyno'r un anawsterau ar gyfer ymgeiswyr annibynnol neu sydd heb gysylltiad â phlaid benodol â'r systemau 'Aelod Ychwanegol' neu 'Rhestr Plaid'.

7.1.12 O blith y dewisiadau sydd ar gael, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, oherwydd presenoldeb sylweddol ymgeiswyr annibynnol, mai'r system etholiadol arall sy'n adlewyrchu orau anghenion llywodraeth leol yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yw'r system 'Un Bleidlais Drosglwyddadwy'. I'r perwyl hwnnw, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig gwneud deddfwriaeth a fydd yn caniatáu i Gynghorau yng Nghymru benderfynu pa system bleidleisio sy'n adlewyrchu orau anghenion eu pobl a chymunedau lleol. Bydd Awdurdodau Lleol yn gallu defnyddio'r systemau 'Y Cyntaf i'r Felin' neu 'Un Bleidlais Drosglwyddadwy' ar gyfer etholiadau i'w Cyngor.[22] Y Cynghorau eu hunain fydd i ddewis systemau pleidleisio ar gyfer eu hardaloedd lleol nhw.

7.1.13 Bydd Cynghorau'n parhau i ddefnyddio'r system etholiadol bresennol, nes eu bod yn penderfynu ei newid. Os yw Cyngor yn penderfynu newid trefniadau etholiadol, rhaid iddo ddefnyddio'r system newydd am y ddau etholiad Cyngor cyfan ("etholiad arferol") nesaf sy'n dilyn y penderfyniad. Ar ôl dau etholiad Cyngor cyfan o dan y system etholiadol newydd, bydd Cyngor yn gallu newid yn ôl i'r system flaenorol os yw'n dewis gwneud hynny. Bydd isetholiadau'n cael eu cynnal gan ddefnyddio'r un system etholiadol ag y defnyddir ar gyfer yr etholiadau Cyngor cyfan.

7.1.14 Nid yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymestyn yr opsiwn o system 'Un Bleidlais Drosglwyddadwy' i Gynghorau Cymuned ar hyn o bryd. Bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o Gynghorau Cymuned, y cyfeirir ato ym mharagraff 6.1.4.

*Cwestiwn Ymgynghori 28:*
*Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio safbwyntiau cychwynnol ar yr holl gynigion sydd wedi'u cynnwys ym Mhennod 7 ar etholiadau a phleidleisio.*

*Cwestiwn Ymgynghori 29:*
*Byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu unrhyw safbwyntiau ar fanteision a chostau ariannol ac anariannol posibl sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn y Papur Gwyn.*

*Cwestiwn Ymgynghori 30:*
*Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn*

---

ddigon o bleidleisiau'n barod, bydd eich pleidlais yn cael ei throsglwyddo i'ch ail ddewis yn unol â'ch cyfarwyddiadau.

[22] Mae'r cynnig yn amodol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymrui yn cael cyfrifoldeb dros etholiadau llywodraeth leol o dan Fil Cymru sydd ar ei daith drwy'r Senedd ar hyn o bryd

*yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?*

*Cwestiwn Ymgynghori 31:*
*Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?*

*Cwestiwn Ymgynghori 32:*
*Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar grwpiau sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?*

*Cwestiwn Ymgynghori 33:*
*Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar gynnwys y Papur Gwyn hwn.*

# 8 ATODIAD UN: Statws Cynigion yr Ymgynghorwyd arnynt fel rhan o’r Ymgynghoriad ar y Bil Drafft Blaenorol

### Tabl Un: Statws Darpariaethau’r Bil Drafft Blaenorol

| Cynnig Polisi | I’w gynnwys yn y Bil newydd | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Rhan 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau** | | |
| Ardaloedd llywodraeth leol *(Uno Gorfodol)* | Hepgor | Nid yw uno gorfodol yn bolisi’r Llywodraeth mwyach. |
| Cynghorau Sir | Cadw | Nod yr adrannau hyn yn bennaf yw diweddaru a gwneud yn fwy eglur yr iaith a ddefnyddir i fynegi’r trefniadau cyfansoddiadol sylfaenol ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae cadw yn rhan o broses hirdymor i wneud cyfraith cyfansoddiadau Awdurdodau Lleol, sy’n hynafol ac yn gymhleth ar brydiau, yn fwy agored a thryloyw.<br>Bydd Adran 12 (newid enw Cyngor) yn cael ei gadw ond yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at fwrdeistrefi sirol hefyd, gan na fydd statws bwrdeistref sirol yn cael ei ddiddymu fel y cynigiwyd yn wreiddiol. |
| Sefydlu’r Cynghorau ar gyfer y siroedd newydd | Hepgor | Roedd y cynnig yn amodol ar uno gorfodol. |
| **Rhan 2: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol** | | |
| Y pŵer cyffredinol | Cynnwys | Roedd cefnogaeth eang i’r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. |
| Cymhwysedd ar gyfer y pŵer cyffredinol i Gynghorau Cymuned | Diwygio | Mae’r cynnig sylfaenol yn aros, gyda rhai newidiadau i’r ffordd y cyfeirir at gynghorau cymuned sy’n bodloni’r gofynion ac yn pasio penderfyniad: ac am faint mae cynghorau’n parhau i ddal gafael ar y statws ar ôl pasio penderfyniad. |
| **Rhan 3: Hyrwyddo Mynediad i Lywodraeth Leol** | | |
| Cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol | Cadw | Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Byddai’n rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i annog pobl leol i gymryd rhan ym mhrosesau penderfynu’r Cyngor, mynegi eu barn a sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried. Bydd hefyd gofyn i gynghorau ymgynghori’n eang ar eu cynigion ar gyfer eu cyllideb. |
| Pwyllgorau ardal cymuned | Diwygio | Hepgor y gofyniad i gael Pwyllgorau Ardal o’r math a fynegwyd mewn darpariaethau blaenorol. Mae’r Papur Gwyn yn gofyn am farn ynghylch a oes angen newidiadau i’r darpariaethau cyfredol ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sy’n dymuno gweithredu neu barhau i weithredu |

| Cynnig Polisi | I'w gynnwys yn y Bil newydd | Sylwadau |
|---|---|---|
| | | pwyllgorau ardal. |
| Ceisiadau gwella | Hepgor | Nid oedd digon o gefnogaeth i'r cynnig hwn. |
| Mynediad i gyfarfodydd ac ati | Diwygio | Y ddyletswydd ar Arweinwyr/meiri i annerch cyfarfodydd cyhoeddus i gael ei diwygio er mwyn caniatáu hyblygrwydd ynghylch sut mae Arweinwyr yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi sut maent yn bwriadu gwneud hyn ac adrodd ar ba mor llwyddiannus fu eu hymdrechion. Mae cynigion eraill yn yr adran hon wedi'u cadw i'w cynnwys yn y Bil newydd. |
| Dyletswydd i gyhoeddi canllaw i'r cyfansoddiad | Cadw | Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Bydd gofyniad ar Gynghorau i baratoi crynodeb hawdd ei ddeall o'u cyfansoddiad, fel y gall pobl weld sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a gan bwy. |
| **Rhan 4: Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u Haelodau** | | |
| Dyletswyddau ar aelodau Cynghorau Sir | Diwygio | Cadw mewn egwyddor ond gwneud ambell fân newid fel newid y ddyletswydd i gynnal cymorthfeydd i ddyletswydd i'w gwneud yn bosibl trafod materion etholwyr gyda nhw yn breifat; y ddyletswydd adroddiadau blynyddol i gael ei disodli gan ddyletswydd ar Gynghorwyr i ddweud sut maent wedi cyfathrebu â'u hetholaeth.<br>Mewn ymateb i ymatebion yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu ymestyn y cyfnod sydd gan Gynghorwyr i ymateb i ohebiaeth o bythefnos i dair wythnos. |
| Tordyletswydd | Diwygio | Gall Aelod sy'n cael ei gosbi gan bwyllgor safonau fod yn destun deiseb, ac os oes digon o lofnodion ar y ddeiseb (o leiaf 20% o'r etholwyr lleol), cynhelir isetholiad. |
| Darpariaethau pellach ynglŷn â dyletswyddau ar Aelodau | Cadw | Gofyniad ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo safonau da o ymddygiad ymysg eu Haelodau. Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Bydd y darpariaethau'n ymwneud â swyddogaeth y pwyllgorau safonau o ran darparu cyngor a hyfforddiant ar ddyletswyddau newydd yr aelodau yn cael eu cadw hefyd. |
| Swyddogion Gweithredol Cynghorau sir | Diwygio | Byddwn yn cadw'r angen i arweinwyr gytuno ar amcanion gyda'u Haelodau Cabinet, ond yn caniatáu hyblygrwydd ynghylch pa mor rheolaidd y mae'n rhaid adolygu. |
| Penodi prif swyddogion penodol | Cadw | Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Bydd yn creu gofyniad ar arweinwyr i wneud trefniadau i reoli perfformiad y prif weithredwr ac yn darparu hefyd y bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn dod yn swydd prif swyddog. |
| Pwyllgorau trosolwg a chraffu a phwyllgorau safonau | Cadw | Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd a bydd yn cynnwys gofyniad i greu cydbwyllgorau trosolwg a chraffu lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar y cyd. |

| Cynnig Polisi | I’w gynnwys yn y Bil newydd | Sylwadau |
|---|---|---|
| Mân ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall | Cadw | Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y Bil newydd. |
| **Rhan 5: Cynghorau Sir: Gwella Llywodraethu** | | |
| Dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau llywodraethu da | Cadw | Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. |
| Cynlluniau corfforaethol | Hepgor | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol eisoes yn gofyn i awdurdodau lleol gynhyrchu cynllun corfforaethol. |
| Asesiadau o drefniadau llywodraethu | Cadw | Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol sicrhau llywodraethu da; bydd hyn cael ei brofi drwy hunanasesiadau rheolaidd ac adolygiadau rheolaidd gan gymheiriaid. |
| Adolygiadau o lywodraethu ac ymyriadau | Cadw | Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. |
| Cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr | Diwygio | Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd ond yn cael ei ddiwygio yn dilyn adborth rheoleiddwyr. |
| Pwyllgorau llywodraethu corfforaethol ac archwilio | Cadw | Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. |
| **Rhan 6: Cynghorau Cymuned** | | |
| Adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned | Hepgor | Mae adolygiad annibynnol i fwrw golwg fwy cynhwysfawr ar ddyfodol y sector cynghorau cymuned yn cael ei gomisiynu. |
| Aelodau Cynghorau Cymuned i gwblhau hyfforddiant | Diwygio | Yn hytrach na chreu gofyniad ar gynghorwyr cymuned i gwblhau hyfforddiant penodol, bydd dyletswydd ar gynghorau cymuned i ystyried eu hanghenion hyfforddi a pharatoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu sut maent yn bwriadu ymateb i’r anghenion hyfforddi hynny. |
| Dyddiadau etholiadau Cynghorau Cymuned | Diwygio | Mae’r cynnig i newid hyd tymor o bedair blynedd i bum mlynedd yn cael ei gadw ond nid oes angen cysylltu’r newid â’r amserlenni ar gyfer cyflwyno uno gorfodol mwyach a bydd yn gysylltiedig â chyflwyno tymhorau pum mlynedd ar gyfer prif awdurdodau’n gyffredinol. |
| **Rhan 7: Materion y Gweithlu** | | |
| Canllawiau ar faterion y | Diwygio | Rhoddir ystyriaeth i gadw’r pŵer i wneud canllawiau statudol, a fyddai’n galluogi Gweinidogion |

| Cynnig Polisi | I'w gynnwys yn y Bil newydd | Sylwadau |
|---|---|---|
| gweithlu | | Cymru i gyhoeddi canllawiau ar faterion y gweithlu. |
| Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus | Hepgor | Ni fydd y Comisiwn Staff yn cael sail statudol ond bydd yn parhau tan fis Ebrill 2018. |
| **Rhan 8: Cyffredinol ac Atodlenni** | | |
| **Cyffredinol** | | |
| Dehongli | Diwygio | Bydd angen iddo adlewyrchu cynnwys terfynol y Bil adeg ei gyflwyno. |
| Cymhwyso'r Ddeddf mewn perthynas â siroedd a siroedd bwrdeistrefol tan 1 Ebrill 2020 | Hepgor | Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar uno gorfodol. |
| Pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol etc / rheoliadau a gorchmynion | Diwygio | Bydd angen iddo adlewyrchu cynnwys terfynol y Bil adeg ei gyflwyno. |
| Dod i rym | Diwygio | Bydd angen iddo adlewyrchu cynnwys terfynol y Bil adeg ei gyflwyno. |
| **Atodlenni** | | |
| Siroedd yng Nghymru | Hepgor | Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar ran 1, pennod 1 |
| Cynghorau Newydd: etholiadau cyffredin cyntaf | Hepgor | Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar ran 1, pennod 1 |
| Cynghorau Newydd: cyllid | Hepgor | Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar ran 1, pennod 1 |
| Darpariaeth drosiannol ac ati | Hepgor | Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar ran 1, pennod 1 |
| Deddf 1972: diwygiadau a darpariaeth drosiannol | Cadw gan hepgor rhai | Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn yn gysylltiedig â'r bwriad i ddiweddaru a gwneud yn fwy eglur yr iaith a ddefnyddir i fynegi trefniadau cyfansoddiadol Awdurdodau Lleol a bydd y rhain yn cael eu cadw. Bydd statws bwrdeistref sirol yn parhau felly nid oes angen y darpariaethau a oedd yn diddymu'r statws a byddant yn cael eu hepgor.<br>Hepgor y darpariaethau a oedd yn dileu'r opsiynau i gael etholiadau fesul hanner a thraean. Bydd yr opsiynau hyn yn parhau i fod ar gael i brif awdurdodau. |
| Cynorthwywyr swyddogion gweithredol Awdurdod Lleol | Cadw | Galluogi penodi dirprwy aelodau cabinet. |
| Diwygiadau canlyniadol: prif weithredwr | Cadw | Bydd gofyn i Arweinwyr Cyngor bennu amcanion ar gyfer prif weithredwyr. |

| Cynnig Polisi | I'w gynnwys yn y Bil newydd | Sylwadau |
|---|---|---|
| Pwyllgorau ardal cymuned: diwygiadau a dirymiadau pellach | Hepgor | Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi bellach i ddiwygio yn hytrach na disodli'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n darparu ar gyfer awdurdodau lleol i gael pwyllgorau ardal. |
| Ailenwi pwyllgorau archwilio Cynghorau sir | Cadw | Ehangu pŵer pwyllgorau archwiliol ac yn eu hailenwi'n Bwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |

**Tabl Dau: Statws Cynigion yn y Ddogfen Ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r Bil Drafft (lle nad ydynt wedi cael sylw yn y Papur Gwyn uchod)**

| Cynnig Polisi | Wedi'i gynnwys yn y Bil newydd | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Rhan 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau** | | |
| Cyfrifon a Gofynion Archwilio | Cynnwys | Os oes angen unrhyw newidiadau i'r fframwaith cyfredol o ganlyniad i weithio rhanbarthol gorfodol a systematig, bydd angen i'r rhain gael eu hadlewyrchu yn y Bil newydd. |
| Treth Gyngor | Eithrio | Cysylltiedig â chynigion i uno Awdurdodau Lleol. |
| Trethi Annomestig | Cynnwys | Pwerau ychwanegol i Awdurdodau Bilio ofyn am wybodaeth gan drethdalwyr annomestig ac archwilio eiddo annomestig, lle mae angen gwneud hynny i ymchwilio i achosion posibl o dwyll neu osgoi treth. |
| **Rhan 3: Hyrwyddo Mynediad i Lywodraeth Leol** | | |
| Cynnal busnes (adolygu atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972) | Cynnwys | Bydd hyn yn galluogi hysbysiadau am gyfarfodydd a phapurau eraill i gael eu cynhyrchu'n electronig yn unig, os dymunir. |
| Dileu'r cyfyngiad ar gynnal cyfarfodydd cyngor cymuned mewn adeiladau trwyddedig | Cynnwys | Bydd hyn yn galluogi cynghorau cymuned i gynnal cyfarfodydd mewn adeiladu trwyddedig. Nid oes bwriad mwyach i gynnig bod cynghorau cymuned yn mabwysiadu rheolau sefydlog sy'n gwahardd yfed alcohol mewn cyfarfodydd. |

| Cynnig Polisi | Wedi’i gynnwys yn y Bil newydd | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Rhan 4: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol** | | |
| Dirprwyo swyddogaethau i drydydd partïon | Cynnwys | Cynigir diwygio Rhan 2 Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 i ddarparu ar gyfer trefn newydd a fydd yn galluogi Awdurdodau Lleol i ddirprwyo’r gwaith o arfer rhai o’u swyddogaethau i drydydd partïon, trwy orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru. |
| Amodau Etholaethol – ‘gwasanaethu ar fwy nag un cyngor’ | Eithrio | Bydd ystyried a ddylai aelod etholedig prif gyngor allu gwasanaethu ar Gyngor Cymuned, neu a ddylai Cynghorydd cymuned allu gwasanaethu mwy nag un cyngor cymuned, yn rhan o’r adolygiad o’r sector cynghorau cymuned. |
| Presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd | Cynnwys | Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gael trefniadau ar gyfer presenoldeb o bell. |
| Cydnabyddiaeth aelodau: pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo’r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i adolygu’r model cydnabyddiaeth. | Eithrio | Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno’u barn i’r Panel yn y llythyr cylch gwaith os ydynt yn dymuno. |
| Pwerau i ddiswyddo uwch Swyddogion | Eithrio | Dim brwdfrydedd i ddilyn esiampl Lloegr o gael gwared ar rôl Person Annibynnol. hynny. |
| Trosglwyddo asedau Awdurdod Lleol / trosglwyddo asedau cymunedol | | Cafodd y canllawiau cyfredol ar drosglwyddo asedau cymunedol ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2016 a pharheir i gadw golwg arnynt. |
| **Rhan 5: Cynghorau Sir: Gwella Llywodraethu** | | |
| Adroddiad Cyflwr Llywodraeth Leol | Hepgor | Nid ydym yn bwriadu mynd ar drywydd pwerau yn y maes hwn. |
| Un Porth Gwybodaeth | Hepgor | Ni fyddai angen deddfwriaeth i greu porth gwybodaeth |
| Cwynion | Hepgor | Byddai ymdrin â chwynion yn cael ei ystyried o dan y gofyniad ‘llywodraethu da’ ehangach |
| **Rhan 6: Cynghorau Cymuned** | | |
| Cynghorau cymuned: cyhoeddi adroddiad blynyddol | Hepgor | Nid ydym yn bwrw ymlaen â’r gofyniad hwn mwyach. |

| Cynnig Polisi | Wedi’i gynnwys yn y Bil newydd | Sylwadau |
|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad Cynghorau Cymuned | Hepgor | Roedd yr ymgynghoriad ar y bil drafft blaenorol yn dangos cefnogaeth ar gyfer rheoli perfformiad ar y cyfan ond cadarnhawyd bod hyn eisoes yn digwydd fel rhan o arferion cyflogi da ac nad oedd angen deddfu rhagor ar ei gyfer. |
| Adolygu deddfwriaeth Cynghorau Cymuned | Hepgor | Ystyrir y posibilrwydd o gydgrynhoi deddfwriaeth gyfredol ond byddai angen i unrhyw newidiadau arfaethedig i’r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 gael eu llywio gan yr adolygiad o’r sector cynghorau cymuned. |
| Pleidleisiau Cymunedol | Hepgor | Bydd darpariaethau mewn perthynas â phleidleisiau a gynhelir at ddiben ffurfio neu ddiddymu cyngor cymuned yn parhau i fod ar waith tan yr adolygiad o’r sector cynghorau cymuned ac unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol sy’n deillio o hynny. |

# 9 ATODIAD DAU: CWESTIYNAU YMGYNGHORI

| | |
|---|---|
| Eich enw: | |
| Sefydliad (lle bo’n berthnasol): | |
| E-bost / rhif ffôn: | |
| Eich cyfeiriad: | |

*PENNOD 2*

| |
|---|
| Cwestiwn Ymgynghori 1: (Para 2.2.1):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ystyried 'profion' fel fframwaith wrth ystyried gweithio'n rhanbarthol.*<br><br>a) *A ydych yn credu bod y 'profion' sydd wedi'u hamlinellu o gymorth i roi strwythur i syniadau?* |
| |
| b) *A oes profion neu ystyriaethau eraill y gellid eu defnyddio hefyd?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 2: (Para 2.3.35):<br>*Yn y Papur Gwyn hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o feysydd y mae'n credu y dylid eu darparu ar sail ranbarthol.*<br><br>a) *A ydych yn cytuno y dylid darparu’r meysydd hyn ar sail ranbarthol?* |
| |
| b) *Pa ffactorau ymarferol y dylem eu hystyried wrth symud ymlaen â'r cynigion hyn?* |
| |
| c) *Pa bwerau 'ategol' eraill fyddai eu hangen i sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu harfer yn effeithiol ar lefel ranbarthol?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 3: (Para 2.3.43):<br>*Yn y Papur Gwyn hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o feysydd y mae'n credu y gellid eu darparu ar sail ranbarthol.*<br><br>a) *A ydych yn credu y dylid gosod gofyniad ar Awdurdodau Lleol i weithio'n rhanbarthol i ddarparu’r swyddogaethau hyn?* |
| |
| b) *A oes ystyriaethau ymarferol eraill y dylem fod yn ymwybodol ohonynt?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 4: (Para 2.3.43):<br>*A oes unrhyw swyddogaethau eraill a fyddai'n elwa o ddull systematig o weithio'n rhanbarthol?* |
| |

| |
|---|
| Cwestiwn Ymgynghori 5: (Para 2.3.43):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cael hyblygrwydd i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu swyddogaethau eraill lle mae gweithio rhanbarthol yn orfodol, yn dilyn ymgysylltu â llywodraeth leol a phartneriaid eraill.*<br><br>*A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 6: (Para 2.3.44):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r trefniadau newydd atal Awdurdodau Lleol rhag defnyddio'u pwerau presennol i gyflawni swyddogaethau ychwanegol ar sail ranbarthol.*<br><br>*A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 7: (Para 2.4.16):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid trefnu a darparu rhai gwasanaethau swyddfa gefn a thrafodiadol yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.*<br><br>*Pa wasanaethau ydych chi'n meddwl fyddai'n gweithio orau o'u trefnu a'u darparu fel hyn?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 8: (Para 2.4.16):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod goresgyn problemau rhannu data yn allweddol er mwyn cyflawni swyddogaethau swyddfa gefn ar ffurf rhanbarthol.*<br><br>a) *Pa rwystrau deddfwriaethol sydd wedi creu anawsterau o ran sicrhau cynnydd wrth rannu gwasanaethau?* |
| |
| b) *Sut mae'r rhain wedi cael eu goresgyn neu sut y gellid gwneud hynny?* |
| |
| c) *Pa heriau sy'n codi wrth rannu data?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 9: (Para 2.4.16):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai rhannu rhagor o swyddogaethau swyddfa gefn o gymorth. Ceir nifer o opsiynau:*<br>• *Galluogi Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau i lywodraeth leol (a sefydliadau eraill)*<br>• *Sefydlu model tebyg i ddarparu gwasanaethau swyddfa gefn i lywodraeth leol (a sefydliadau eraill)*<br>• *Sefydlu model arall i ddarparu gwasanaethau swyddfa gefn i lywodraeth leol (a sefydliadau eraill)*<br><br>a) *Pa un o'r opsiynau ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf priodol i gefnogi gweithio rhanbarthol orau? Pam?* |
| |

b) *Pa fodelau eraill allai fod yn effeithiol a pha gamau fedrai Gweinidogion Cymru eu cymryd i alluogi neu i annog gweithredu modelau eraill dan arweiniad llywodraeth leol?*

Cwestiwn Ymgynghori 10: (Para 2.4.21):
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod deall a chynllunio asedau'r sector cyhoeddus ar y cyd yn hanfodol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. I wneud hyn byddai angen mapio asedau ystadau a'r bwriadau ar gyfer y dyfodol yn rhanbarthol.*

a) *Sut y gellid cyflawni'r gwaith hwn o lywodraethu a phenderfynu ar y cyd yn y ffordd orau?*

b) *Ai dilyn y patrwm economaidd ehangach yw'r ffordd gywir?*

Cwestiwn Ymgynghori 11: (Para 2.5.16):
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cyd-bwyllgor wedi'i gryfhau (Cyd-bwyllgor Llywodraethu) yn fodel llywodraethu priodol ar gyfer gwasanaethau a gaiff eu darparu'n rhanbarthol. Ei bwriad yw creu fframwaith ar gyfer llywodraeth leol fel eu bod yn gallu cyflawni hyn.*

a) *Pa drefniadau democrataidd ar gyfer atebolrwydd a chraffu ddylai fodoli mewn model o'r fath?*

b) *A ddylai pob Awdurdod Lleol sy'n rhan o'r Cyd-bwyllgor gael yr un hawliau pleidleisio neu a ddylid eu pwysoli mewn rhyw ffordd?*

Cwestiwn Ymgynghori 12: (Para 2.6.5):
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ystyried sefyllfa Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn gosod trefniadau sy'n lleihau'r cymhlethdod ar gyfer Awdurdodau a'u partneriaid. Er bod hyn yn fater o bwys sylfaenol i Ben-y-bont ar Ogwr, mae buddiannau dilys gan bartneriaid eraill hefyd, gan gynnwys Awdurdodau Lleol eraill a Byrddau Iechyd Lleol. Rydym felly'n gofyn am sylwadau ynghylch y ffordd orau o roi sylw i'r materion a nodwyd yma.*

Cwestiwn Ymgynghori 13: (Para 2.7.9):
*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai 'Opsiwn 3: Fframwaith a phatrwm daearyddol' yw'r dull mwyaf priodol ar gyfer gwaith rhanbarthol yn y dyfodol.*
*a) Beth yw'ch barn chi am y cynnig i bennu patrwm daearyddol datblygu economaidd ar gyfer 'Cyd-bwyllgorau Llywodraethu'?*

*b) Sut fedrai fframwaith ar gyfer gweithio'n is-ranbarthol mewn meysydd gwasanaethau eraill weithredu'n ymarferol?*

| |
|---|
| c) *A yw'n briodol cael hyblygrwydd er mwyn caniatáu i waith rhanbarthol groesi ffiniau datblygu economaidd dan amgylchiadau eithriadol? Pa amgylchiadau fyddai'r rheini?* |
| |
| d) *Sut ddylai trefniadau llywodraethu'r 'Cyd-bwyllgorau Llywodraethu' datblygu economaidd oruchwylio gwaith is-ranbarthol?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 14: (Para 2.7.9):<br>*Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ynghylch priodoldeb ceisio pwerau i greu Awdurdod Cyfun. Yn benodol, croesawir sylwadau ynghylch pa ddisgwyliadau gofynnol y dylid eu cael wrth ystyried priodoldeb creu Awdurdod Cyfun.* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 15: (Para 2.8.7):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid datblygu fframwaith cyllidol gorfodol er mwyn sicrhau bod gwariant pob 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' yn cael ei ddiwallu drwy gyfraniadau cyfun oddi wrth yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono.*<br><br>a) *A ddylai gwariant pob 'Cyd-bwyllgor Llywodraethu' gael ei ddiwallu gan yr Awdurdodau Lleol sy'n rhan ohono, gan gytuno ar y cyfrannau yn lleol, er mwyn sicrhau'r dull gweithredu mwyaf hyblyg?* |
| |
| b) *A ddylai'r fframwaith ddarparu safbwynt diofyn os nad oes modd dod i gytundeb yn lleol, a sut y gellid sbarduno proses o'r fath?* |
| |
| c) *Pa ystyriaethau pellach allai fod yn berthnasol neu angen eu cynnwys mewn fframwaith cyllidol?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 16: (Para 2.10.7):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd angen cyhoeddi canllawiau statudol lle bo angen clir er mwyn helpu sefydliadau i symud tuag at ddull mwy cyson, rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau.*<br><br>*A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Os ydych yn cytuno, pa fath o gyngor, canllawiau a chymorth ar arweinyddiaeth neu faterion yn ymwneud â'r gweithlu fedrai arwain at fwy o gysondeb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 17: (Para 2.11.4):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn medru cydweithio neu uno ar draws ffiniau Byrddau Iechyd Lleol.*<br>*A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?* |
| |

| Cwestiwn Ymgynghori 18: (Para 2.11.4):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael gwahanu yn ogystal ag uno.*<br>*A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Pam?* |
|---|
| |

*PENNOD 3*

| Cwestiwn Ymgynghori 19: (Para 3.1.7):<br>Byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu sylwadau ynghylch y disgwyliadau gofynnol wrth ystyried pa mor briodol yw achos o uno gwirfoddol. |
|---|
| |

*PENNOD 4*

| Cwestiwn Ymgynghori 20: (Para 4.2.3):<br>Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ar unrhyw un o'r cynigion a nodwyd yn flaenorol yn y Bil Llywodraeth Leol drafft a'r papur ymgynghori cysylltiedig, gweler y cyfeiriad yn Atodiad Un. |
|---|
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 21: (Para 4.3.8):<br>Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer pob 'Awdurdod Gwella'.<br><br>A ydych yn cytuno? Pam? |
| |

*PENNOD 5*

| Cwestiwn Ymgynghori 22: (Para 5.2.8):<br>Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai bod disgwyliadau gofynnol ar Gynghorwyr i ryngweithio â'u hetholwyr lleol.<br><br>A ydych yn cytuno ynteu'n anghytuno? Os felly, beth ddylai'r disgwyliadau gofynnol hyn fod? |
|---|
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 23: (Para 5.3.2):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol gwneud mân newidiadau i ddeddfwriaeth gyfredol ar bwyllgorau ardal er mwyn cynyddu eu hyblygrwydd. Beth ddylai'r newidiadau hyn fod yn eich barn chi?* |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 24: (Para 5.4.3):<br>*Bydd y gofyniad i Awdurdodau Lleol weithio'n rhanbarthol yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gynghorwyr, yr Awdurdod Lleol a gweithwyr cyflogedig gydbwyso'r cyfrifoldebau sydd ganddynt i'w hardal leol, gyda'u cyfrifoldebau i'r rhanbarth mwy. Sut gellid cyflawni hyn orau?* |
| |

| Cwestiwn Ymgynghori 25: (Para 5.5.4):<br>*Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu rhoi cyfle i Awdurdodau Lleol ddychwelyd i fath o system bwyllgor os mai hynny sy'n diwallu amgylchiadau lleol orau.*<br>*Sut byddai'r dewis hwn yn gweithio orau yng nghyd-destun y cynigion ar gyfer trefniadau rhanbarthol newydd?* |
|---|
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 26: (Para 5.6.4):<br>*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai fod yn briodol i swyddi Uwch-swyddogion statudol perthnasol gael eu dynodi ar lefel ranbarthol yn unig os yw'r swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n rhanbarthol.*<br><br>*A yw hyn yn briodol yn eich barn chi? Pam? Os felly, sut gellid cyflawni hyn orau?* |
| |

*PENNOD 6*

| Cwestiwn Ymgynghori 27: (Para 6.1.7):<br>Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod pethau y gellir eu gwneud yn awr i helpu i feithrin cadernid ac adnewyddiad yn y sector yn y tymor byr i'r tymor canolig. Byddai'n croesawu sylwadau ar y rhestr o gamau gweithredu ym mharagraff 6.1.6 y gellid eu cymryd yn y tymor byr i helpu'r sector fod yn fwy effeithiol/cadarn, a barn ar unrhyw gamau gweithredu eraill y gellid eu cymryd. |
|---|
| |

*PENNOD 7 a Chwestiynau Cyffredinol*

| Cwestiwn Ymgynghori 28: (Para 7.1.14):<br>Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio safbwyntiau cychwynnol ar yr holl gynigion sydd wedi'u cynnwys ym Mhennod 7 ar etholiadau a phleidleisio. |
|---|
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 29: (Para 7.1.14):<br>Byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu unrhyw safbwyntiau ar fanteision a chostau ariannol ac anariannol posibl sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn y Papur Gwyn. |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 30: (Para 7.1.14):<br>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.<br><br>a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? |
| |
| b) A ellid ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl? |
| |

| |
|---|
| Cwestiwn Ymgynghori 31: (Para 7.1.14):<br>Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â’r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi’u cynnwys yn y Papur Gwyn ar blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.<br><br>a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? |
| |
| b) A ellid ail-lunio’r cynigion er mwyn cynyddu’r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 32: (Para 7.1.14):<br>Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â’r Papur Gwyn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar effaith y cynigion sydd wedi’u cynnwys yn y Papur Gwyn ar grwpiau sy’n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar yr asesiad hwnnw.<br><br>a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill sydd heb eu nodi yn yr asesiad? |
| |
| b) A ellid ail-lunio’r cynigion er mwyn cynyddu’r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl? |
| |
| Cwestiwn Ymgynghori 33: (Para 7.1.14):<br>Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar gynnwys y Papur Gwyn hwn. |
| |